RS3 - Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau

(Version 03/03)

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad 1

Crynodeb gweithredol 2

Canfyddiadau 6
- Maint y cronfeydd wrth gefn 6
- Pam bod gan elusennau gronfeydd wrth gefn 9
- Y sefyllfa gyfreithiol 12
- Hyd a lled polisïau cronfeydd wrth gefn 14
- Elusennau heb bolisi cronfeydd wrth gefn 15

Penderfynu ar lefel y cronfeydd wrth gefn 17
- Cael y lefel cronfeydd wrth gefn yn 'anghywir' 17
- Gosod y lefel cronfeydd wrth gefn 19
- Cronfeydd wrth gefn a rheoli risg 20
- Cyllid grant a chronfeydd wrth gefn 21
- Cyfrifoldeb dros bolisïau cronfeydd wrth gefn 22
- Arweiniad a ddefnyddiwyd 23

Cyrraedd y lefel cronfeydd wrth gefn y cytunwyd arni a'i chynnal 24
- Elusennau sydd â mwy na'r lefel y cytunwyd arni 24
- Elusennau sydd â llai na'r lefel y cytunwyd arni 27
- Adolygu'r polisi 29
- Strategaeth fuddsoddi 29
- Newidiadau yng nghyflwr y farchnad stoc 30
- Cyfanswm elw 31
- Buddion ymddeoliad 31

Egluro'r sefyllfa cronfeydd wrth gefn 32
- Dosbarthu cyllid 32
- Terminoleg cronfeydd wrth gefn 35
- Polisi cronfeydd wrth gefn da 35
- Datgelu polisi 36
- Diddordeb mewn polisïau cronfeydd wrth gefn 37

Atodiad A - Technegau Ymchwil 39

Atodiad B - Rhestr Termau 52

Atodiad C - Adnoddau i Ymddiriedolwyr 54

Atodiad D - Llyfryddiaeth 59

Diolchiadau 61

Cyflwyniad

I ymddiriedolwyr, mae ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn y mae angen i'w helusen eu dal, a sut i'w cael, yn rhan bwysig o gynllunio ac o reolaeth ariannol gadarn. Mae hefyd yn fater allweddol i'r Comisiwn Elusennau fel y rheolydd. Mae lefelau cronfeydd wrth gefn sydd wedi eu gosod yn rhy uchel yn clymu arian a allai ac a ddylai gael ei wario ar weithgaredd elusennol. Os ydynt yn rhy ise, l gall dyfodol yr elusen fod mewn perygl.

Yn y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2001, roedd dros £26 biliwn yn cael ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn gan elusennau cofrestredig.[1] Roedd dros £5.5 biliwn o'r cronfeydd wrth gefn yma'n cael eu cadw gan elusennau oedd heb bolisi cronfeydd wrth gefn, ac roedd nifer o'r polisïau oedd yn bodoli yn rhai annigonol ac o safon isel. Er bod yr hinsawdd economaidd newidiol yn golygu y bydd gwerth y cronfeydd wrth gefn a ddyfynnir gan rai elusennau wedi disgyn ers hynny, mae'r egwyddor o gael polisi cronfeydd wrth gefn wedi ei gynllunio'n dda, gyda lefel y gronfa wrth gefn sy'n addas i'r elusen ac yn eglur i'w budd-ddeiliaid yn dal yn syniad da.

Mae sefyllfa pob elusen yn wahanol ac mae'n amhosibl gosod fformiwla ar gyfer lefelau cronfeydd wrth gefn a fydd yn addas i bob elusen ym mhob cam o'i datblygiad. Nid yw penderfynu faint o arian i gadw wrth gefn, neu sut i adeiladu cronfeydd wrth gefn, yn dasg hawdd i unrhyw gorff. Ond dylai rhoddwyr, buddiolwyr a'r Comisiwn Elusennau allu disgwyl bod gan elusennau bolisi cronfeydd wrth gefn, ei fod yn gadarn ac yn addas i'r diben ac yn gwbl atebol. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y ffactorau hyn ac yn gwneud argymhellion i alluogi ymddiriedolwyr i fynd i'r afael â nhw.

[1] Data a dynnwyd o ffurflenni blynyddol elusennau i'r Comisiwn Elusennau am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2001. Am fanylion gweler tabl 1 yn Atodiad A.

Crynodeb gweithredol

Mae arian a allai gael ei wario, ond yn lle hynny sy'n cael ei ddal yn ôl, sef cronfeydd wrth gefn, yn chwarae rhan bwysig mewn cydbwyso anghenion buddiolwyr elusen nawr ac yn y dyfodol. Bydd y rhan fwyaf o elusennau yn ceisio adeiladau cronfa, ond mae'r symiau a'r arferion penodol yn amrywio cryn dipyn ac mae yna fwlch mawr rhwng elusennau sydd heb ddim cronfeydd wrth gefn a rhai sy'n dal cronfeydd sylweddol wrth gefn. Ar lefel eang, roedd y £26 biliwn oedd yn cael ei ddal ar y cy d mewn cronfeydd gan elusennau yn 2001 yn cyfateb yn fras i gyfanswm eu hincwm yn y flwyddyn honno. Roedd 10% o elusennau yn cyfrif am 90% o gronfeydd wrth gefn ac incwm.

Nid oes rheol benodol sy'n pennu'r swm neu'r gyfran o incwm elusen y gellir ei ddal fel cronfeydd wrth gefn. Mae meysydd gweithgaredd, ffynonellau cyllid, anghenion i'r dyfodol, cyfleoedd, amodau economaidd, pethau annisgwyl a'r risgiau a wynebir yn ffactorau sy'n penderfynu lefel cronfeydd wrth gefn elusen. Mae asesiad risg yn gam pwysig i helpu elusen i benderfynu ar y lefel gywir o gronfeydd wrth gefn.

Mae gosod polisi cronfeydd wrth gefn, ac, yn arbennig, canfod cronfeydd rhydd yn helpu i lywio'r ffordd y mae elusen yn rheoli ei harian parod, asedau hylifol a dyled: ei ddull o reoli'r trysorlys. Gall polisi cronfeydd wrth gefn cynhwysfawr hefyd helpu ymddiriedolwyr wrth gynllunio ac egluro'u dull wrth fudd-ddeiliaid. Mae gofyniad cyfreithiol ar ymddiriedolwyr i gyhoeddi polisi cronfeydd wrth gefn eu helusen yn eu hadroddiad blynyddol.

Mae nifer o elusennau wedi meddwl yn ofalus am ba lefel o gronfeydd wrth gefn sydd angen arnynt i barhau i weithredu'n effeithiol, ac mae ganddynt bolisïau cronfeydd wrth gefn eglur o safon da ar waith. Fodd bynnag, nid oedd polisïau rhai o'r elusennau yn ein hastudiaeth yn cynnig digon o fanylion am eu dull o adeiladu cronfeydd wrth gefn, nac am sut yr oeddent yn rheoli eu cronfeydd wrth gefn yn ymarferol. Er enghraifft, y cyfan yr oedd rhai elusennau yn ei wneud oedd copïo pwer i grynhoi cronfeydd wrth gefn o ddogfen lywodraethu'r elusen a'i alw'n bolisi cronfeydd.

Roedd gormod o elusennau ddim yn rhoi digon o sylw i reoli eu cronfeydd, os o gwbl. Roedd bron i 70% o elusennau gydag incwm o dros £10,000 heb bolisi cronfeydd wrth gefn pan gyflwynasant eu ffurflen flynyddol ar gyfer 2001, er bod gan nifer o'r elusennau hyn arian sylweddol wrth gefn nad oedd yn cael ei wario. Nid yw'r sefyllfa hon yn dderbyniol. Ond ar yr ochr gadarnhaol, dywedodd nifer o elusennau wrthym mewn ymateb i'r holiadur eu bod yn y broses o ddatblygu polisi cronfeydd neu bod un ganddynt ers cyflwyno ffurflen flynyddol 2001, ac mae'r Comisiwn Elusennau yn disgwyl gweld y broses hon yn cyflymu.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd elusennau wedi ymrwymo i ddod â gwir lefel eu cronfeydd yn unol â'u lefel arfaethedig lle'r oedd amrywiadau yn digwydd. Mae elusennau y mae eu cronfeydd wrth gefn islaw'r lefel sydd angen gan eu polisi yn wynebu her arbennig wrth geisio llenwi'r bwlch hwnnw. Roedd nifer o elusennau yn fodlon cadw cronfeydd wrth gefn uwchlaw'r lefel a osodwyd. Nid yw'n foddhaol adeiladu cronfeydd wrth gefn yn ddiderfyn yn y modd yma.

Mae dosbarthu adnoddau elusen i gronfeydd, a'r termau a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwahanol gronfeydd yma, yn amrywio cryn dipyn a gall hyn ei gwneud yn anodd i fudd-ddeiliaid weld gwir lefel cronfeydd wrth gefn elusen. Mae nifer o ymddiriedolwyr yn gwneud defnydd amhriodol o gonfensiynau cyfrifo fel cronfeydd dynodedig er mwyn ystumio gwir lefel eu cronfeydd wrth gefn.

Cred rhai elusennau bod angen iddynt 'guddio' gwir lefel eu cronfeydd wrth gefn oherwydd gallai'r rheiny effeithio'n andwyol ar eu gallu i geisio rhoddion neu grantiau. Fodd bynnag, yn ein hastudiaeth, roedd y rhan fwyaf o elusennau yn gweld bod polisi cronfeydd wrth gefn cynhwysfawr a thryloyw yn eu helpu mewn modd cadarnhaol i osgoi problemau gyda rhoddwyr a chyllidwyr. Dim ond 6% o'r elusennau â pholisi cronfeydd wrth gefn oedd yn gweld hyn yn annefnyddiol.

Serch hynny, cafodd rhai elusennau broblemau gan bod pobl yn meddwl eu bod yn 'gyfoethog', a neges allweddol i roddwyr a chyllidwyr posibl yw bod angen edrych y tu hwnt i'r ffigwr pennawd, sef faint sydd gan elusen mewn cronfeydd, ac ystyried pam fod yr elusen yn dal y cronfeydd wrth gefn yma.

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar gronfeydd wrth gefn elusennau drwy ddefnyddio tystiolaeth o gofnodion y Comisiwn Elusennau ac archwilio'n ffeiliau achos ein hunain. Rydym hefyd wedi siarad â nifer o elusennau ac wedi edrych ar elusennau sydd â pholisi a'r rhai sydd heb un. Fel ymarfer ar wahân rydym wedi edrych ar brofiad elusennau bach. Bydd canfyddiadau'r ymchwil honno'n cael eu cyhoeddi ar wahân. Ceir manylion y dulliau ymchwilio yn atodiad A.

Mae'n profiad gwaith achos o ddelio ag achosion sy'n ymwneud â chronfeydd yn dangos bod elusennau'n mynd i drafferthion pan fo'r ymddiriedolwyr a'r elusen:

- yn adeiladu cronfeydd wrth gefn heb bolisi na dealltwriaeth eglur o bwrpas yr arian;
- yn gweithredu heb ddigon wrth gefn ac yna'n cael trafferthion ariannol;
- yn trin cronfeydd wrth gefn fel tasg ar wahân i'r rheiny sy'n gwneud y cyfrifon yn hytrach nag fel elfen hanfodol o gynllunio strategol;
- yn meddu ar bolisi cronfeydd wrth gefn ond ddim yn egluro'r polisi hwn i'r budd-ddeiliaid;
- yn cadw arian mewn cronfeydd wrth gefn ac yn ei drin fel gwaddoliad pan fo'r arian yn deillio o apêl incwm;
- yn disgrifio cyllid yr elusen yn anghywir ac felly'n camddarlunio eu sefyllfa ariannol yn eu cyfrifon; neu
- yn ceisio cuddio cronfeydd wrth gefn rhag eu budd-ddeiliaid.

Isod ceir crynodeb o'r argymhellion sy'n codi o'r ymchwil. Ceir gwybodaeth am bob pwynt a wneir yn adran canfyddiadau'r adroddiad hwn.

Ers cyflwyno Ffurflen Flynyddol 2001, bydd y newid yn yr hinsawdd economaidd a chyflwr y farchnad stoc wedi gostwng cronfeydd wrth gefn rhai elusennau. Ond nid yw hynny'n newid neges greiddiol yr adroddiad hwn, ac, mewn amseroedd ansicr, mae adeiladu a rheoli cronfeydd wrth gefn yn flaenoriaeth fwy fyth i elusennau.

Argymhellion i elusennau a'u hymddiriedolwyr

- Waeth beth fo maint neu natur yr elusen, dylai ymddiriedolwyr gael polisi cronfeydd priodol sy'n egluro'n glir pa lefel neu ystod o gronfeydd sydd angen ar yr elusen i weithredu'n effeithiol.

- Dylai ymddiriedolwyr wneud yn siwr:
  - bod eu polisi cronfeydd wrth gefn yn addas ar gyfer nodau, anghenion ac amcanion yr elusen a'r risgiau y mae'n eu hwynebu;
  - eu bod yn deall ac yn cytuno'n ffurfiol ar yr egwyddorion y tu ôl i bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen, gan osod lefel addas o gronfeydd wedi ei seilio ar ffactorau sy'n effeithio ar eu helusen yn hytrach na ffigwr neu reol fympwyol;
  - bod polisi cronfeydd wrth gefn eu helusen yn mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd yng nghyhoeddiad y Comisiwn Elusennau, **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (CC19);
  - bod eu polisi cronfeydd wrth gefn, polisi buddsoddi a'u fframwaith llywodraethu yn cael eu hadolygu o dro i dro i gymryd ystyriaeth o'r newidiadau i'r amgylchedd y mae'r elusen yn gweithio ynddo;
  - bod cynlluniau realistig mewn lle i gynnal cronfeydd wrth gefn yr elusen ar y lefel neu o fewn yr ystod a osodwyd allan yn y polisi, ac ar gyfer rheoli effaith unrhyw newid;
  - a'u bod yn ystyried yn ofalus y risgiau a'r camau y gellid eu cymryd pan fo cronfeydd wrth gefn yr elusen gryn dipyn yn is na'r lefel sydd ei angen i redeg y sefydliad yn effeithiol.
- Mae'n rhaid i elusennau sydd â pholisi cronfeydd wrth gefn ei ddatgelu yn eu hadroddiad blynyddol.
- Ni ddylai ymddiriedolwyr:
  - ddefnyddio cronfeydd cyfyngedig i ddarparu arian wrth gefn i gronfa wrth gefn gyffredinol;
  - ceisio cuddio neu ostwng ymddangosiad cronfeydd wrth gefn yn eu cyfrifon; neu
  - gadw adnoddau a dderbyniwyd i'w gwario fel incwm mewn, er enghraifft, cronfa ddynodedig neu mewn cronfeydd wrth gefn yn arbennig ar gyfer y pwrpas o gynhyrchu incwm i'r dyfodol.
  - Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod gofynion cyfrifo a chofnodi (SORP) elusennau yn cael eu dilyn yn gyson wrth gyflwyno cronfeydd wrth gefn yn eu cyfrifon blynyddol a dylent fod yn gallu rhoi eglurhad, ar gais, o sut y maent yn dosbarthu eu hadnoddau ac yn rhannu arian rhwng cronfeydd wrth gefn a chronfeydd dynodedig.
  - Wrth wneud apeliadau, dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn ei gwneud yn amlwg sut y maent yn bwriadu defnyddio'r adnoddau. Os ydynt yn bwriadu defnyddio'r arian fel cronfeydd wrth gefn, dylent ddweud hyn yn yr apêl.

Argymhellion ar gyfer cyrff sy'n rhoi grantiau

- Dylai rhoddwyr grant:
  - gyhoeddi eu polisïau ar roi grantiau a'u polisïau tuag at gronfeydd wrth gefn ymgeiswyr;

- ceisio datblygu gweithdrefnau asesu ceisiadau grant sy'n galluogi elusennau i egluro (lle bo'n berthnasol) eu polisi cronfeydd wrth gefn a'r rhesymau dros lefel eu cronfeydd wrth gefn;

- cymryd polisi cronfeydd wrth gefn a lefel cronfeydd wrth gefn elusen i ystyriaeth wrth benderfynu rhoi grantiau.

Argymhellion i roddwyr

Er mwyn gwneud elusen mor effeithiol â phosibl, dylid annog rhoddwyr i wneud rhoddion cyffredinol. Os oes gan roddwyr ddewis amlwg dros ddefnydd rhodd, er enghraifft p'un ai ei thrin fel incwm neu i greu gwaddoliad gwariadwy, dylent roi cyfarwyddiadau clir fel bod yr elusen yn gallu gwneud y dosbarthiad cronfa cywir.

Beth fydd Comisiwn Elusennau yn ei wneud:

- Bydd y Comisiwn Elusennau yn:

  - yn parhau i fonitro rheoli cronfeydd wrth gefn elusennau, yn cymryd camau i sicrhau cydymffurfio â'r rheoliadau cyfrifo a chofnodi ac yn hybu arfer gorau;

  - yn adolygu Cronfeydd Incwm Wrth Gefn Elusennau (OG43) a dogfennau perthnasol eraill i gynnwys mwy o enghreifftiau go iawn o bolisïau cronfeydd wrth gefn, a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r arweiniad ar-lein yma gan y Comisiwn Elusennau; ac

  - yn gwneud ymchwil pellach mewn 18 mis, pan ragwelir gwelliannau mewn rheoli cronfeydd wrth gefn a datgelu polisi.

- Bydd y Comisiwn Elusennau, mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor SORP a chyrff proffesiynol yn:

  - rhoi ystyriaeth bellach i statws cronfeydd dynodedig a'u cynnwys neu eu gadael allan o'r diffiniad o gronfeydd wrth gefn; ac

  - yn gweithio ar ddarparu arweiniad penodol ar edrych ar effaith cynlluniau pensiwn buddiant diffinedig ar bolisïau cronfeydd wrth gefn.

Maint y cronfeydd wrth gefn

Yn y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2001, roedd dros £26 biliwn yn cael ei ddal fel arian wrth gefn gan elusennau yng Nghymru a Lloegr. Roedd y swm hwn yn cyfateb yn fras i gyfanswm incwm elusennau am y flwyddyn honno. Mae bron i 90% o'r cronfeydd hyn a'r incwm yn cael eu dal gan ddim ond 10% o elusennau.

Mae lefelau a pholisïau cronfeydd wrth gefn yn amrywio'n fawr. Mae rhai elusennau yn fodlon heb gronfeydd wrth gefn o gwbl; mae eraill yn teimlo eu bod angen cadw gwerth gwariant nifer o flynyddoedd fel cronfeydd wrth gefn. Mae'r tabl isod yn dangos y lefel cronfeydd wrth gefn uchaf a welwyd ym mhob grwp incwm, y swm ar gyfartaledd a nifer yr elusennau heb gronfeydd wrth gefn o gwbl.

Cronfeydd wrth gefn gan elusennau yng Nghymru a Lloegr:

Er mai yn y grwp elusennau canolig eu maint y gwelwyd y gymhareb cronfeydd i wariant uchaf, yn y grwp yma hefyd oedd y cyfran uchaf o elusennau na fyddai eu lefel cronfeydd wrth gefn presennol yn ddigon yn warant digonol ar gyfer gwariant 2001 (h.y. cymhareb o <1:1). Elusennau canolig eu maint oedd y gyfran uchaf (65%) o elusennau oedd heb bolisi cronfeydd wrth gefn hefyd (gweler tudalen 14 am fanylion).

Yn y tri grwp incwm mae gan tua 80% o elusennau lai na'r swm cyfartalog o gronfeydd wrth gefn i'w grwp.

	Elusennau Mawr Iawn	Elusennau Mawr	Elusennau Canolig eu maint
Maint sampl - elusennau a atebodd 'Nodwch gyfanswm yr enillion a ddelir gan yr elusen' ar Ffurflen Elusennau 2001	3305	4985	26772
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn	£18.7 bn	£3.8 bn	£3.9 bn
Cyfanswm gwariant	£19.4 bn	£2.3 bn	£1.6 bn
Swm ar gyfartaledd a gadwyd mewn cronfeydd wrth gefn i'r elusennau yma	£5.6 m	£760 k	£146 k
Cyfanswm gwariant	£5.9 m	£465 k	£61 k
Lefel uchaf Cronfeydd wrth gefn (Ffurflen Flynyddol 2001)	£537 m	£31 m	£27 m
Nifer yr elusennau heb ddim cronfeydd wrth gefn (% o'r cyfanswm)	267 (8%)	412 (8%)	4387 (16%)
Cyfartaledd cronfeydd: cymhareb gwariant	3.3: 1	2.9: 1	8.2: 1
Nifer yr elusennau sydd â chymhareb o lai na 1:1 (h.y. llai o gronfeydd wrth gefn na gwariant yn 2001)[2]	22%	43%	64%

[2] Tynnir y cymarebau o atebion elusennau a roddwyd i C10C (maint cronfeydd) wedi ei rannu gan yr ateb i C2 (ii) (Cyfanswm gwariant) ar ffurflenni blynyddol 2001. Felly dim ond gyda blwyddyn o wariant y mae'r rhain yn cynnig cymhariaeth a allai gynnwys er enghraifft gwariant cyfyngedig a gallent beidio â bod yn gynrychioladol o wariant arferol elusen.



Nid yw'n ymddangos bod gan faes gweithgaredd yr elusen neu'r gwasanaeth y mae'n ei chynnig unrhyw effaith ar ei chymhareb cronfeydd wrth gefn i wariant. Wedi archwilii o 30 o elusennau gyda'r gymhareb cronfeydd wrth gefn i wariant uchaf, 30 â'r isaf a 30 a ddewiswyd ar hap, nid oedd patrwm amlwg yn ymddangos. Nid oedd un math o elusen neu weithgaredd yn fwy amlwg yn unrhyw un o'r grwpiau hyn. Ac nid yw'r math o elusen yn effeithio ar a yw wedi llunio polisi cronfeydd wrth gefn ai peidio.

Mae swm y cronfeydd wrth gefn sydd ei angen yn dibynnu'n drwm ar nodau a buddiolwyr yr elusen. Gall elusen sy'n gwasanaethu buddiolwyr ag angen parhaol roi mwy o bwysigrwydd ar hyfywedd tymor hir eu helusen. Ar y llaw arall, os nad yw buddiolwyr yn dibynnu ar yr elusen yn y tymor hir, gall fod angen lefel dipyn is o gronfeydd wrth gefn.

Mae rhai elusennau yn dosbarthu'r arian a godwyd yn ystod y flwyddyn yn unig a gall fod yn gwbl briodol i elusen o'r fath fod â chronfa fach wrth gefn neu ddim un o gwbl. I eraill sydd heb gronfeydd wrth gefn, y cwestiwn yw sut i ganfod ac adeiladu cronfeydd wrth gefn.

"Rydym yn gorff deinamig sy'n gallu ymateb yn sydyn i newid felly byddai chwe mis [lefel cronfeydd wrth gefn] yn ormod i ni."

Ymddiriedolwr elusen

Dylid gosod lefelau cronfa wrth gefn ar ôl ystyried y risgiau a'r cyfleoedd y mae'r elusen yn eu hwynebu. Trafodir y ffactorau y dylid eu hystyried yn nes ymlaen ar dudalen 20.

Canfyddiadau

Roedd gan ein tîm adolygu bryderon am un elusen fawr iawn oherwydd nad oedd ganddi unrhyw gronfeydd wrth gefn o gwbl.

Yn ystod yr ymweliad edrychwyd yn fanwl ar y lefel cronfeydd wrth gefn a rhoddwyd cyfle i'r ymddiriedolwyr egluro eu polisi. Dywedodd yr ymddiriedolwyr wrth y tîm ymweld bod y penderfyniad i beidio â chadw cronfeydd wrth gefn wedi ei seilio ar eu hegwyddorion moesol a'r ffaith eu bod wedi cynllunio mesurau eraill y gallent eu defnyddio mewn argyfwng, fel gwerthu asedau penodol.

Credai'r ymddiriedolwyr mai ychydig o risg o drychineb oedd yna i'w helusen ac felly gallai'r cynlluniau wrth gefn fod yr un mor radical.

Roedd y tîm ymweliad adolygu yn fodlon bod yr elusen wedi meddwl yn ofalus am eu dull ac wedi gwneud penderfyniadau addas.

Rhaid i elusennau sy'n dewis peidio â chadw cronfeydd wrth gefn fod yn siwr eu bod yn ystyried peryglon cael cronfeydd wrth gefn isel, fel y disgrifir ar dudaeln 18, a'u bod yn rheoli risgiau yn gywir.

Nid yw'r Comisiwn Elusennau yn pennu lefel 'gywir' o gronfeydd wrth gefn, er bod lefelau cronfeydd yn cael eu monitro mewn cymhariaeth â lefelau gwariant gan ddefnyddio datganiadau blynyddol elusennau. Edrychir yn fwy manwl ar elusennau sydd ag incwm o dros £10 miliwn, yn ystod adolygiad arferol cyfrifon elusennau mawr ac fel rhan o ddull rheoleiddio wedi ei seilio ar risg.

Lle y canfyddir lefelau cronfeydd uchel mewn perthynas â gwariant elusen, neu lle mae materion cronfeydd wrth gefn yn cyfrannu i batrwm pryder ehangach, bydd y Comisiwn Elusennau yn tynnu sylw'r ymddiriedolwyr at y gofynion ac yn rhoi arweiniad safonol i helpu'r elusen i gwrdd â'r gofynion.

Bydd staff y Comisiwn Elusennau hefyd yn gofyn i ymddiriedolwyr egluro a chyfiawnhau eu safle. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd eglurhad yr elusen yn foddhaol. Fodd bynnag, os na ellir egluro lefel cronfeydd elusen, gallai hynny ddangos camreoli difrifol a gellid agor ymchwiliad.

Roedd monitro ffurflenni blynyddol 2001 yn dangos perfformiad gwael gan elusennau oedd â chronfeydd wrth gefn uchel o ran rheoli'r cronfeydd hynny.

- Bydd y Comisiwn Elusennau yn parhau i fonitro rheoli cronfeydd wrth gefn elusennau, gan gymryd camau i sicrhau cydymffurfio â'r rheoliadau cyfrifo a chofnodi a hybu arfer gorau.

Diben cronfeydd wrth gefn elusennau



Nodyn: Mae'r cyfanswm yn fwy na 100% gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.

Pam bod gan elusennau gronfeydd wrth gefn

Nid oes dim yn rhwystro elusennau rhag dal dal peth cyllid fel cronfeydd wrth gefn. I nifer o elusennau mae cronfeydd wrth gefn yn hanfodol i gynnal eu gallu i weithredu.

Rhaid i ymddiriedolwyr fod yn siwr o'u rhesymau dros ddal cronfeydd wrth gefn a dylent ddatgan y rhesymau hynny'n glir. Heb yr eglurder yma, mae ymddiriedolwyr yn annhebyg o fodloni budd-ddeiliaid eu bod yn defnyddio'u hincwm yn y ffordd orau. Mae'r graff uchod yn dangos y rhesymau a roddodd yr elusennau a gafodd eu hadolygu dros ddal cronfeydd wrth gefn.

Cronfeydd wrth gefn i wrthsefyll anawsterau….

O'r elusennau yr edrychwyd arnynt, y rheswm mwyaf cyffredin dros gael cronfeydd wrth gefn (71%) oedd i sicrhau 'parhad pe bai'r incwm yn amrywio'n fawr'. Roedd cronfeydd wrth gefn i'w 'gwario mewn argyfwng' hefyd yn uchel (41%) sy'n dangos bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw'n bennaf i leddfu sioc.

Cronfeydd wrth gefn ar gyfer amrywiadau rheolaidd, tymor byr…

Roedd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i leddfu problemau llif arian gan 37% o'r rhai a ymatebodd. Roedd enghreifftiau yn cynnwys achosion ble'r oedd elusennau yn defnyddio cronfeydd wrth gefn yn lle benthyca i gau'r bwlch pan nad oedd amseriad incwm a gwariant yn cyd-fynd, er enghraifft, pan fo cyllid grant yn dod mewn ôl-daliadau.

Cronfeydd wrth gefn i helpu i gynllunio ar gyfer twf…

Roedd cronfeydd wrth gefn hefyd yn cael eu defnyddio gan nifer fach o elusennau i ganiatau iddynt gynllunio i dyfu neu i gydio mewn cyfleoedd wrth iddynt godi. Mae hyn yn aml yn ychwanegol at yr angen am gronfeydd wrth gefn i wrthsefyll anawsterau. Mae'n gyffredin i elusennau gael cronfeydd wrth gefn am fwy nag un rheswm.

Canfyddiadau

Mae un elusen fawr wedi sefydlu tair haen o gronfeydd wrth gefn i adlewyrchu'r gwahanol risgiau y mae'n rhaid iddi ymateb iddynt a'i chymhellion dros gadw cronfeydd wrth gefn.

Cedwir y lefel cyntaf o gronfeydd wrth gefn am resymau tactegol tymor-byr. Mae'r elusen yn cadw gwerth dau fis o wariant i wrthsefyll unrhyw anawsterau tymor-byr mewn cyllid neu drafferthion llif arian.

Yn ail y mae'r 'cronfeydd wrth gefn oportiwnistaidd', a roddwyd o'r neilltu i alluogi'r elusen i ddatblygu a chymryd mantais o gyfleoedd datblygu strategol.

Bwriad y drydedd lefel o gronfeydd wrth gefn tymor-hir yw lleihau'r risgiau a allai godi gan newidiadau allanol mawr yn yr amgylchedd lle mae'r elusen yn gweithredu. Gallai hyn gynnwys cwymp mawr yng ngwerth y farchnad stoc neu ddirywiad mawr yng nghydymdeimlad rhoddwyr â'r achos. Pe bai'r risgiau yma'n cael eu gwireddu, byddent yn effeithio'n fawr ar lifoedd cyllid yr elusen.

Yn yr un modd, mae'r elusen yn sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu hail-lenwi os oes angen eu defnyddio.

Drwy rannu'r cronfeydd wrth gefn i'r lefelau yma mae'r elusen yn hyderus ei bod wedi ystyried yr holl risgiau gwahanol y gallai'r elusen eu hwynebu a bod ganddi ddigon o arian wrth gefn i ddelio â nhw.

Cronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiectau penodol yn y dyfodol…

Roedd data'r arolwg yn dangos bod nifer o elusennau yn dal cronfeydd er mwyn cyllido prosiect penodol yn y dyfodol (40%). Gallai cronfeydd wrth gefn a gedwir yn ôl i dalu costau prosiect yn y dyfodol gael eu rhoi mewn cronfa ddynodedig, a'u tynnu o'r diffiniad o gronfeydd wrth gefn. Dylai ymddiriedolwyr allu egluro pwrpas yr adnoddau yma, p'un a ydynt yn cael eu cadw mewn cronfa wrth gefn neu un ddynodedig. Ceir mwy o wybodaeth am gronfeydd dynodedig ar dudalennau 25-27.

Cronfeydd wrth gefn i gael pwer…

Dywedodd ychydig o elusennau mai un o'u cymhellion dros adeiladu cronfeydd wrth gefn oedd gallu cael dylanwad neu bwer dros elusennau eraill yn yr un maes neu is-sector â nhw.

"Mae gan y rheiny sydd â chronfeydd wrth gefn bwer yn y maes, erbyn hyn mae elusen heb gronfeydd wrth gefn yn cael ei hanwybyddu mewn penderfyniadau grwp."

Cyfarwyddwr cyllid elusen

Beth bynnag fo cymhellion elusen dros gadw arian mewn cronfeydd wrth gefn, rhaid cydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol defnyddio'r arian. Caiff y rhain eu trafod yn fanylach yn yr adran 'Dosbarthu arian'.

Cronfeydd wrth gefn ar gyfer cynhyrchu incwm[3] ...

Dywedodd tua 20% o elusennau mai un o'u rhesymau dros gael cronfeydd wrth gefn oedd er mwyn cynhyrchu incwm.

Nid yw hi bob amser yn amlwg a yw'r elusennau hyn yn derbyn incwm fel is-gynnyrch ychwanegol o fuddsoddi cronfeydd wrth gefn neu ai eu hunig reswm dros gael cronfeydd wrth gefn yw er mwyn cynhyrchu incwm.

Yn yr achos cyntaf, mae gwneud incwm o gronfeydd wrth gefn yn gwbl briodol, a dylai incwm a gedwir gael ei fuddsoddi mewn rhyw ffordd fel arfer. Os oes treth yn cael ei godi ar yr incwm, ni fydd rhyddhad elusen oni bai iddo gael ei fuddsoddi felly.

Fodd bynnag, nid yw ymddiriedolwyr sy'n cadw arian mewn cronfeydd wrth gefn er mwyn cynhyrchu incwm ar gyfer y dyfodol yn unig yn cydymffurfio â'u dyletswydd i wario arian ar ddibenion yr elusen o fewn cyfnod rhesymol o'i dderbyn. Mewn gwirionedd, maent yn newid incwm yn gyfalaf, ac nid oes hawl ganddynt i wneud hynny heb awdurdod pendant.

Mae elusennau yn aml yn dibynnu ar yr elw a geir wrth fuddsoddi cronfeydd wrth gefn, yn arbennig ble, er enghraifft:

- nid oes modd cynhyrchu incwm o unrhyw le arall;
- mae cael arian o ffynonellau eraill yn ddrud;
- mae ymddiriedolwyr eisiau cynhyrchu incwm i ariannu gweithgaredd elusennol nad oes iddo apêl poblogaidd; neu
- cynhyrchu incwm wrth fuddsoddi yw'r unig ffordd i sicrhau annibyniaeth.

> *"mae [cronfeydd wrth gefn] yn ein galluogi i gael ychydig o annibyniaeth oddi wrth sector y wladwriaeth, ac oddi wrth gyllidwyr yn gyffredinol, wrth bennu ein rhaglen waith."*
>
> Cyfarwyddwr cyllid elusen

Fodd bynnag, dim ond drwy fuddsoddi mewn dwy ffordd y gellir creu llif incwm gwahanol neu ychwanegol:

1. Gall ymddiriedolwyr sydd â phwer i grynhoi ychwanegu incwm at waddoliad. Os yw'r pwer hwn yn cael ei ymarfer yn iawn, mae'r weithred hon yn bodloni dyletswydd ymddiriedolwyr i ddefnyddio'u hincwm.

2. Gall ymddiriedolwyr greu gwaddoliad os yw arian yn cael ei roi i'r diben hwnnw neu drwy wneud apêl benodol i'w rhoddwyr neu gyllidwyr.

Os nad yw elusennau yn siwr a oes ganddynt bwer i grynhoi, dylent ddarllen eu dogfen lywodraethu a chysylltu â'r Comisiwn Elusennau os ydynt yn dal yn ansicr. Mewn rhai amgylchiadau, gall ymddiriedolwyr ofyn i'r Comisiwn Elusennau roi awdurdod iddynt grynhoi. Os yw'n briodol gwneud hynny, gall y Comisiwn Elusennau awdurdodi'r pwer hwn drwy Gytundeb neu Orchymyn o dan Adran 26 o Ddeddf 1993.

[3] Caiff 'incwm' ei ddiffinio yn Atodiad B.

Pan fo ymddiriedolwyr yn ymarfer eu pwer i grynhoi, mae'r incwm yn cael ei newid yn waddoliad, felly'n ei dynnu allan o gwmpas cronfeydd wrth gefn. Fel gyda phob pwer, dim ond er budd yr elusen y dylid ei ddefnyddio ac mae'n amodol ar gyfyngiadau statudol. Ni all ymddiriedolwyr ddileu'r angen am y pwer hwn drwy greu cronfa ddynodedig (gyda'r diben o gynhyrchu incwm i'r dyfodol). Ceir mwy o wybodaeth yn ein Harweinaid Gweithredol **Cronfeydd Incwm Wrth Gefn Elusennau** (**OG43**).

Nid buddsoddi arian yw'r unig ffordd i elusen gael rhywfaint o annibyniaeth. Mae'r adroddiad rheoleiddiol **Milestones: rheoli digwyddiadau allweddol ym mywyd elusen** (**RS5**), yn edrych ar bwnc ariannu ac annibyniaeth. Mae'n cyhoeddiad **Annibyniaeth Elusennau ar y Wladwriaeth** (**RR7**) hefyd yn archwilio'r mater.

Cronfeydd wrth gefn ar gyfer…?

"I nifer o elusennau bach mae gwybod bod celciad o arian yn rhywle yn demtasiwn mawr. Mae elusennau'n dychryn ac yn mynd i mewn [i'w cronfeydd wrth gefn] ac nid ydynt wedi ffensio eu polisïau'n addas fel eu bod yn gwybod beth ydyn nhw ac ar gyfer beth."

Ymgynghorydd elusen

Mae'r gallu i gyfiawnhau lefel cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar ddealltwriaeth ymddiredolwyr o pam bod angen eu cronfeydd. Bydd rhai cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw ar gyfer digwyddiadau annisgwyl bob amser, er bod dwyn incwm ymlaen fel clustog yn erbyn digwyddiadau amhenodol neu anfesuradwy yn ddefnydd aneffeithiol ac annerbyniol o asedau elusen.

- Ni ddylai ymddiriedolwyr gadw adnoddau a dderbyniwyd i'w gwario fel incwm mewn, er enghraifft, cronfa ddynodedig neu wrth gefn i bwrpas cynhyrchu incwm yn unig.

Y sefyllfa gyfreithiol

Diffinir cronfeydd incwm yn SI 2000/2868 **Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon a Adroddiadau) 2000** fel:

> "Yr asedau hynny yng nghronfa anghyfyngedig elusen sydd ar gael neu allai fod ar gael i'r ymddiriedolwyr eu defnyddio at bob un neu unrhyw rai o'i ddibenion, unwaith eu bod wedi darparu ar gyfer ymrwymiadau'r elusen a'r gwariant arfaethedig arall."

Nid oes rheol gyfreithiol benodol am faint neu pa gyfran o gronfa incwm elusen y gellir eu dal fel cronfeydd wrth gefn.

Mae gan ymddiriedolwyr elusen ddyletswydd i ddefnyddio incwm yr elusen o fewn amser rhesymol i'w dderbyn.[4] Mae hyn yn deillio o Adran 13(5) o Ddeddf Elusennau 1993, sy'n cyfleu yn gryf bod yn rhaid defnyddio eiddo elusen, o Adran 1(4) a hefyd trwy gydweddiad â'r dyletswydd cyfatebol sy'n berthnasol i ymddiriedolwyr ymddiriedolaethau preifat.[5] Cyn bod ymddiriedolwyr yn gallu defnyddio incwm a dderbynnir mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r dyletswydd hwn mae angen iddynt gael pwer cyfreithiol sy'n eu galluogi (neu'n mynnu eu bod) yn cyfalafu'r incwm (h.y. pwer, neu ymddiriedaeth ar gyfer crynhoi).

Mae'n bosibl na fydd cadw incwm mewn cronfeydd wrth gefn yn hytrach na'i wario yn cydymffurfio â'r dyletswydd i ddefnyddio cronfa incwm elusen o fewn cyfnod rhesymol o'i dderbyn, gan y bydd yn aml yn golygu bod yr ymddiriedolwyr yn oedi cyn gwario'r arian y tu hwnt i'r hyn y byddai'r gyfraith yn ei alw'n rhesymol. Gan y gallai'r gair 'rhesymol' gael ei ddehongli mewn sawl ffordd, dylai ymddiriedolwyr fod â rheswm da dros gadw incwm am unrhyw gyfnod o amser.

Gall elusen gael pwer cyfreithiol pendant (neu ddyletswydd) yn ei ddogfen lywodraethol i grynhoi incwm yn lle gwario'r incwm hwnnw o fewn cyfnod rhesymol i'w dderbyn. Mae union effaith pwer neu ddyletswydd o'r fath yn dibynnu ar ei delerau. Bydd hyn, er enghraifft, yn effeithio ar p'un ai yw'r incwm a grynhowyd yn waddoliad parhaol neu wariadwy. Uchafswm y cyfnod statudol i ganiatáu neu gyfarwyddo crynhoad, yn achos ymddiriedolaethau elusennol, yw 21 blynedd fel arfer.

Pan nad yw ymddiriedolwyr yn ymarfer pwer (neu'n cyflawni ymddiriedaeth) i grynhoi, mae angen iddynt allu cyfiawnhau cadw incwm fel cronfeydd ar sail yr hyn sy'n 'rhesymol' i anghenion gweithredol yr elusen. Er nad oes gofyniad cyfreithiol penodol i gael polisi cronfeydd, mae yna oblygiad amlwg bod hyn yn angenrheidiol er mwyn cyfiawnhau dal unrhyw incwm mewn cronfeydd wrth gefn. Pan wneir hyn heb gyfiawnhad, gall dal incwm mewn cronfeydd wrth gefn olygu torri ymddiriedaeth.

Pan fo ymddiriedolwyr elusen yn gorfod paratoi adroddiadau blynyddol i gydymffurfio ag Adran 45(1) o Ddeddf Elusennau 1993, mae'n rhaid iddynt ddarparu disgrifiad o'r polisi a fabwysiadwyd ganddynt i gynnal cronfa, os oes ganddynt un. (SI 2000/2868 **Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2000**, rheoliad 7(4)(k)(i)).

Mae'r egwyddorion hyn yr un mor wir am bob eiddo ymddiriedolaeth elusennol a weinyddir gan gwmnïau elusennol neu rai eraill fel ymddiriedolwyr. O safbwynt eiddo corfforaethol cwmniau elusennol, nid oes dyletswydd penodol o dan gyfraith cwmnïau sy'n mynnu bod cwmni'n defnyddio ei eiddo corfforaethol o fewn cyfnod rhesymol i'w dderbyn.

Fodd bynnag, mae hawl gyfreithlon gan aelodau cwmni masnachu i ddisgwyl y bydd elw'r cwmni'n cael ei ddosbarthu iddyn nhw fel difidendau, cyn belled nad yw cadw elw gan y cwmni yn cael ei ystyried yn angenrheidiol i anghenion busnes y cwmni. Ym marn y Comisiwn disgwyliad cyfochrog budd-ddeiliaid cwmni elusennol yw y bydd eiddo corfforaethol y cwmni yn cael ei ddefnyddio neu ei gymhwyso i hyrwyddo ei amcanion, ac na fydd yn cael ei gadw'n unig heb gyfiawnhad priodol dros wneud hynny. Mae'r dyletswydd felly yn debyg iawn i'r hyn sy'n wir am ymddiriedolwyr mewn perthynas ag incwm

[4] Adroddiad Blynyddol 1992 paragraff 98

[5] Gweler In re Peel [1936] Pen. 161; In re Gourju's Will Trusts [1943] Pen. 24; In re Allen-Meyrick's Will Trusts [1966] 1 All ER 740.

ymddiriedolaeth. Am fwy o fanylion gweler ein Harweiniad Gweithredol **Cronfeydd Incwm Wrth Gefn Elusennau** (OG43 B2).

Ym marn y Comisiwn, dylai cyfarwyddwyr cwmniau elusennol, ddatgelu'r adroddiad blynyddol sy'n ofynnol gan reoliad 7(4)(k)(i) o Reoliadau 2000 ar y sail hwn.

Hyd a lled polisïau cronfeydd wrth gefn

Mae polisïau cronfeydd wrth gefn yn galluogi elusennau i gadw rhywfaint o arian yn ôl yn hytrach na'i wario'n syth. Mae creu polisi cronfeydd cynhwysfawr yn cyfrannu'n sylweddol at allu ymddiriedolwyr i gydbwyso anghenion buddiolwyr presennol a rhai yn y dyfodol, i roi sicrwydd i fudd-ddeiliaid bod yr elusen yn cael ei rheoli'n dda a, lle'n briodol, i gael strategaeth ar gyfer adeiladu cronfeydd wrth gefn.

Darlun siomedig a geir o ddadansoddi Ffurflen Flynyddol 2001 y Comisiwn Elusennau yn cyflwyno darlun siomedig. Mae gormod o elusennau heb bolisi i egluro'u lefel cronfeydd wrth gefn - dywedodd 75% o elusennau maint canolig a 46% o elusennau mawr nad oedd ganddynt bolisi cronfeydd. Mae hyd yn oed elusennau mawr iawn yn methu; roedd 33% heb bolisi (gweler atodiad A, tabl 1 am fanylion).

Ar wahân i'r band incwm, nid yw nodweddion elusennau sydd â pholisi cronfeydd neu heb un mor wahanol â hynny (Gweler Atodiad A, Tabl 14)

Mae gan y ddau grwp - y rheiny sy'n meddu ar bolisi cronfeydd a'r rheiny sydd heb un - tua'r un faint o elusennau darparu gwasanaeth, rhoi grantiau neu ddarparu adnoddau, ac nid oedd yn amrywio yn ôl ffynhonnell incwm yr elusen nac unrhyw wahaniaeth ystadegol amlwg yn oed yr elusennau ym mhob grwp.

Roedd bron i hanner (49%) yr ymatebwyr oedd yn meddu ar bolisi wedi ei greu yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Faint o elusennau sy'n dal polisïau cronfeydd wrth gefn



Mae materion polisi cronfeydd wrth gefn wedi bod yn amlwg mewn nifer o ymholiadau Adran 8 a wnaed gan y Comisiwn Elusennau.[6] Mae staff canolfan alw a chefnogaeth elusen yn rhoi cyngor ar y mater ac mae'n timau ymweliad adolygu yn argymell bod pob elusen sydd heb bolisi yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu un. Mae datblygu polisi cronfeydd wrth gefn hefyd yn un o'r meysydd allweddol y mae'r Comisiwn yn eu harchwilio wrth asesu a yw elusen yn cydymffurfio â'r gofynion cyfrifo ac adroddiad blynyddol (gofynion SORP), neu un o reolau euraid **SORP**.[7]

- Waeth beth fo maint neu natur yr elusen, dylai fod gan ymddiriedolwyr bolisi cronfeydd priodol sy'n egluro'n glir pa lefel neu ystod o gronfeydd wrth gefn sydd angen ar yr elusen i weithredu'n effeithiol.

- Bydd y Comisiwn Elusennau yn gwneud ymchwil pellach mewn 18 mis, pan ragwelir gwelliannau mewn rheoli cronfeydd wrth gefn a datgelu polisi.

Elusennau heb bolisi cronfeydd wrth gefn

O'r elusennau hynny yr edrychwyd arnynt nad oedd ganddynt bolisi cronfeydd wrth gefn mewn grym yn 2001, dywedodd 20% o'r ymatebwyr eu bod bellach yn mynd i'r afael â'r mater.[8]

Mae'n rhagdybiaeth gyffredin nad oes gan elusennau bolisi cronfeydd wrth gefn oherwydd nad oes ganddynt arian i'w gadw mewn cronfeydd wrth gefn. Mae'n canfyddiadau ni'n awgrymu nad yw hyn yn gwbl wir. Roedd 'dim arian i'w gadw wrth gefn' yn eglurhad cyffredin dros beidio â datblygu polisi (33%) ond roedd gan 64% o'r ymatebwyr oedd heb bolisi rywfaint o arian y gellid ei ddisgrifio fel cronfa wrth gefn. Dylai elusennau sydd heb arian i'w gadw mewn cronfa wrth gefn ddal i wneud datganiad yn disgrifio'u sefyllfa a'u bwriadau (os o gwbl) i geisio sefydlu cronfa wrth gefn.

Dywedodd rhai o'r elusennau oedd heb bolisi mai dim ond symiau cymharol fychan oedd ganddynt wrth gefn, ond roedd gan 9% dros £1 miliwn. Yr hyn sy'n peri gofid yw bod dros £5.5 miliwn yn cael ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn gan elusennau heb bolisi cronfeydd wrth gefn.[9]

Rhesymau eraill a roddwyd gan elusennau dros beidio â chael polisi cronfeydd wrth gefn oedd 'erioed wedi ystyried cael un' (29%) a 'ddim yn sylweddoli ein bod i fod i gael un (20%).

Nid yw cymhlethdod yn amlwg yn broblem fawr gan mai dim ond 7% o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi creu polisi oherwydd bod hynny'n rhy anodd. Yn yr un modd, roedd elusennau oedd yn meddu ar bolisi yn gweld y broses yn un gymharol hawdd; dim ond 9% ddywedodd bod y broses yn eithaf anodd neu'n anodd iawn.

[6] Adran 8 yw'r pwer sydd gan y Comisiwn Elusennau i ymchwilio'n ffurfiol i elusen neu grwp o elusennau lle mae yna bryderon am gamymddwyn neu gamreoli adnoddau elusen ac i gymryd camau i unioni camdriniaeth neu arfer gwael lle bo modd. Cyhoeddir canlyniadau'r ymchwiliadau hyn ar ein gwefan.

[7] Rheolau euraid **SORP** yw rhestr o chwech o'r meysydd mwyaf arwyddocaol y mae staff y Comisiwn Elusennau yn eu harchwilio wrth asesu cydymffurfio â **SORP 2000**.

[8] Elusennau a atebodd 'na' i gwestiwn 10C ar ffurflen flynyddol 2001.

[9] Fel ag y dywedwyd yn Natganiadau Blynyddol 2001, C10A a C10C.

Pa mor hawdd oedd hi i greu'r polisi



Mae nifer o elusennau sydd heb bolisi yn gyfarwydd â'r syniad o gael cronfeydd wrth gefn ac maent eisoes yn rheoli'r cydbwysedd rhwng adnoddau sy'n dod i mewn ac adnoddau sy'n cael eu gwario heb alw hyn yn 'reoli cronfeydd wrth gefn'. Yn yr achosion yma, dylai egluro'r hyn y maent yn ei wneud a datblygu'r syniad ymhellach fod yn gam syml.

Roedd elusennau a oedd wedi gofyn am gyngor ar gronfeydd wrth gefn, ond wedi dweud yn Ffurflen Flynyddol 2001 nad oedd ganddynt bolisi, yn rhoi amryw o resymau am hyn. Y sylw mwyaf aml oedd bod ganddynt bolisi erbyn hyn neu eu bod yn y broses o ddatblygu polisi o'r fath (45%). Roedd rhesymau eraill yn cynnwys bod hyn yn flaenoriaeth isel (6%) a dim digon o arian i fod angen polisi (6%) (gweler Atodiad A Tabl 20).

Mae canfyddiadau'n harolwg yn cadarnhau manteision cael polisi cronfeydd wrth gefn. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr (46%) bod cael polisi cronfeydd wrth gefn wedi helpu eu helusen, tra dim ond 6% ddywedodd nad oedd wedi bod o gymorth.

Penderfynu ar lefel y cronfeydd wrth gefn

Cael y lefel cronfeydd wrth gefn yn 'anghywir'

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chael y lefel cronfeydd wrth gefn yn 'anghywir' yn ei gwneud yn hanfodol bod y mater hwn yn cael ei ystyried gan ymddiriedolwyr a bod polisi cywir yn cael ei greu.

Elusennau sydd â chronfeydd wrth gefn rhy uchel…

Pan fo cronfeydd wrth gefn yn rhy uchel, mae ymddiriedolwyr yn mynd i'r perygl o weithredu yn groes i'w dyletswydd i ddefnyddio incwm o fewn amser rhesymol, neu'n methu yn eu dyletswydd i fod yn deg â'r buddiolwyr presennol a rhai'r dyfodol.

Gallai enw da'r elusen ac elusennau yn gyffredinol gael ei niweidio os yw'r sector yn cael ei gweld yn eistedd ar symiau mawr o arian neu'n eu bentyrru lle mae yna angen amlwg i'w ddefnyddio'n syth ar fuddiolwyr.

"Gwell ei fod yn cael ei wario ar fuddiolwyr teilwng na'n pydru mewn banc."

Un a ymatebodd i'r arolwg

Gall elusennau sy'n cael eu hariannu gan grant ganfod bod lefel cronfeydd sy'n cael ei hystyried yn 'rhy uchel' yn cael effaith niweidiol ar eu gallu i gael nawdd (gweler tudalen 21 am fwy o fanylion).

Fodd bynnag, ni fydd llawer o'r rheiny sy'n rhoi rhoddion llai, yn ymwybodol o lefel cronfeydd wrth gefn elusen na'n wir, beth yw cronfeydd. Eto i gyd mae rhoddwyr yn disgwyl i'w rhoddion gael eu defnyddio i hybu dibenion elusen ac ni fyddai'r rhan fwyaf yn disgwyl i'r arian yma gael ei gadw, heb ei wario, heb reswm arbennig.

"Er gwaethaf rhai honiadau i'r gwrthwyneb, nid oes gan yr elusen dystiolaeth bod cronfeydd wrth gefn 'gormodol' wedi effeithio ar lefelau cefnogaeth. Drwy gydol diwedd y 90au yn arbennig mae'r elusen wedi gweld twf cyson a pharhaol yn y rhan fwyaf o fathau o roi gwirfoddol."

Cyfarwyddwr cyllid elusen

Roedd un elusen yn disgwyl beirniadaeth gyhoeddus oherwydd ei lefel cronfeydd, yr ystyrid ei bod yn rhy uchel.

O ganlyniad gwelwyd cwymp mewn derbyniadau ac ymholiadau am adael cymynroddion, eu prif ffynhonnell incwm. Er bod gan yr elusen ymrwymiadau tymor-hir sylweddol i'w buddiolwyr, daeth yn amlwg bod angen rhaglen wariant newydd.

Gwnaeth yr elusen adolygiad strategol mawr ac o ganlyniad mae wedi bod yn gwario mwy na'u hincwm ers nifer o flynyddoedd.

Mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol, fodd bynnag, na allant gynnal hyn yn y tymor hir ac maent yn rhoi mesurau ar droed i fynd i'r afael â'r mater ac i gydbwyso incwm a gwariant.

Penderfynu ar lefel y cronfeydd wrth gefn

Mae'n bosibl na fydd lefel uchel o gronfeydd wrth gefn yn gwneud niwed syth neu amlwg i incwm ond ni ddylai ymddiriedolwyr fentro gweithredu yn groes i'r dyletswydd i ddefnyddio incwm o fewn amser rhesymol, neu fentro beirniadaeth gan y cyfryngau a allai niweidio integriti'r elusen yn llygaid y cyhoedd.

Elusennau sydd â chronfeydd rhy isel…

Gall cronfeydd wrth gefn isel fygwth bodolaeth parhaol elusen. Gallent hefyd atal rhoddwyr posibl rhag rhoi i elusen os yw ei bodolaeth o dan fygythiad.

"Mae'n bosibl na fydd ariannwr sy'n hoffi mentro gyda syniadau arloesol yn gweld lefel isel o gronfeydd wrth gefn yn broblem. Gall un arall a sefydlwyd i gefnogi grwp cleient arbennig, er enghraifft, pobl ifanc, fod eisiau gweld cronfeydd wrth gefn iach sy'n sicrhau hirhoedledd."

Ymgynghorydd elusen

Gall perygl methdaliad greu ansicrwydd ymhlith buddiolwyr, cefnogwyr a gweithwyr. Os yw elusen anghorfforedig yn mynd yn fethdalwr, gallai'r ymddiriedolwyr fod yn bersonol atebol dros y costau.

Bu'n rhaid i un elusen newid ei strwythur trefniadol er mwyn ymateb i drafferthion ariannol enbyd.

Roedd yr elusen wedi gweithredu gyda gweddill negyddol ar ei arian anghyfyngedig cyn hynny ac nid oedd erioed wedi gallu adeiladu cronfeydd wrth gefn. Roedd yn cael ei hariannu'n bennaf drwy grantiau prosiect a'r costau gweinyddu drwy godi arian cyhoeddus. Ar adegau llwm roedd yr elusen yn dibynnu ar orddrafftiau a benthyciadau banc.

Roedd yr elusen yn bodoli fel elusen 'llaw i'r genau' ac roedd wedi gwneud llwyddo i wneud llawer o waith da. Fodd bynnag, wedi toriadau sylweddol i fwy nag un o'i llifoedd incwm roedd mewn trafferthion ariannol difrifol. Yn methu dal ymlaen fel yr oedd, ceisiodd yr elusen 'achubiaeth drwy uno' i warchod ei fuddiolwyr.

Er ei bod yn amhosibl dweud a fyddai cronfeydd wrth gefn digonol wedi caniatáu i'r elusen barhau yn ei ffurf wreiddiol, roedd ei diffyg cronfeydd wrth gefn yn golygu nad oedd dim slac yn ei sefyllfa ariannol, ac felly fe'i gorfodwyd i ddod o hyd i ateb yn syth.

Byddai cronfeydd wedi caniatáu amser gwerthfawr i'r elusen ail-addasu ei chyllid a rhoi mwy o opsiynau i'r ymddiriedolwyr ar gyfer parhau â'u gwaith.

Caiff cyfuniadau achub eu trafod yn fwy manwl yn ein hadroddiad **Gweithio Cydweithredol a Chyfuno** (**RS4**) a gyhoeddir ym Mawrth 2003.

Mewn achosion llai eithafol, gall cronfeydd wrth gefn isel ddal i achosi problemau. Gall elusen gael ei gorfodi i dorri neu roi heibio agweddau o'i gwaith o ganlyniad i gwymp bychan neu dros dro mewn incwm neu gostau annisgwyl.

Dylai elusen sydd â lefel uchel o ymrwymiad, neu un y mae ei hincwm yn ansicr ac yn agored i ffactorau y tu allan i'w rheolaeth, edrych ar ffyrdd o adeiladu cronfeydd wrth gefn digonol i'w gwarchod rhag mynd yn fethdalwr neu rhag amhariad difrifol ar ei gwaith elusennol.[10]

Gosod y lefel cronfeydd wrth gefn

O'r elusennau a archwiliwyd, dywedodd 49% mai'r darn anoddaf o greu polisi cronfeydd wrth gefn oedd penderfynu ar y lefel cywir i ddal a dywedodd 23% o'r elusennau bod nifer o ffactorau 'anhysbys' yn gwneud gosod lefel cronfeydd yn anodd.

Sut benderfynoch chi ar y lefel o gronfeydd i'w cadw?

"[Roedd] cryn ddadlau rhwng yr 'hebogiaid' (gwario, gwario, gwario) a'r 'colomennod' (arbed, arbed, arbed). Codwyd y pwnc mewn sawl cyfarfod pwyllgor a llwyddo i gael cyfaddawd yn y diwedd."

Ymatebwr i'r arolwg

Mae ymddiriedolwyr yn cymryd gwahanol agweddau tuag at bennu'r lefel (neu ystod) cywir o gronfeydd wrth gefn i'w helusen. I rai y dull mwyaf ymarferol oedd gosod 'ystod' o gronfeydd wrth gefn, i eraill roedd cyfuno cynllunio cronfeydd gydag asesiad risg o weithgareddau'r elusen yn help i fesur lefel briodol o gronfeydd wrth gefn.

Ceir manylion am arweiniad pellach ar y pwnc hwn yn Atodiad C i'r adroddiad hwn.

Bu un o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn manylu ar y broses yr aeth eu helusen nhw drwyddi wrth benderfynu ar ei lefel cronfeydd:

1. Ystyried Arweiniad y Comisiwn Elusennau.
2. Arolygu elusennau tebyg ac adolygu/meincnodi cyfrifon.
3. Ail-strwythuro cronfeydd wrth gefn yn unol ag arfer gorau fel ag yr amlinellwyd yng ngofynion SORP a chanllaw'r Comisiwn Elusennau.
4. Ymgynghori â grwp cynghori cyllid a dewis cefnogwyr
5. Anfon drafft i'r ymddiriedolwyr.
6. Newidiadau terfynol yn cael ei ddilyn gan gymeradwyaeth.
7. Adolygiad blynyddol yn cael ei adeiladu i mewn i'r cylch cynllunio.

[10] Diffinir y term 'methdaliad' a'i ddefnydd gydag elusennau anghorfforedig yn Atodiad B.

Roedd nifer o'r elusennau y siaradom ni â nhw yn ei chael yn ddefnyddiol cymharu eu lefel cronfeydd wrth gefn gyda rhai elusennau eraill mewn sefyllfa debyg. Mae meincnodi o'r fath yn 'wiriad realiti' defnyddiol i elusennau. Ond, gan nad all cymariaethau gymryd sefyllfa unigryw pob elusen i ystyriaeth, dylent fod yn ychwanegol at ddatblygu polisi cronfeydd wrth gefn, yn hytrach na rhywbeth yn ei le.

> *"Rydym yn ceisio meincnodi yn erbyn cyrff eraill ond mae'n hynod o anodd cael gafael ar gymhariaeth naturiol."*
>
> Cyfarwyddwr cyllid elusen

Dylai pob elusen ystyried nifer o ffactorau wrth osod lefelau cronfeydd wrth gefn ac mae **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) yn egluro y dylai polisi cronfeydd elusen gael ei lywio gan:

- ragfynegiadau o lefelau incwm yn y dyfodol, gan gymryd i ystyriaeth ddibynadwyedd pob ffynhonnell incwm a'r posibiliadau o agor ffynonellau newydd;
- rhagfynegiadau gwariant yn y dyfodol ar sail gweithgareddau a gynlluniwyd;
- dadansoddiad o unrhyw anghenion i'r dyfodol, cyfleoedd, argyfyngau neu risgiau y byddai eu heffeithiau yn anodd eu cwrdd allan o'r incwm os a phan maent yn digwydd; ac
- asesiad, ar y dystiolaeth orau sydd ar gael yn rhesymol, o'r tebygolrwydd y byddai pob un o'r anghenion ayb yn codi a'r canlyniadau i'r elusen o beidio gallu eu cwrdd.

Tra bod nifer o elusennau yn ystyried y ffactorau yma, mae yna rai elusennau o hyd sy'n pennu lefelau cronfeydd wrth gefn yn fympwyol. Nid yw'r dull hwn yn gynaladwy gan ei bod yn bosibl na fydd y polisi a geir wedyn yn galluogi'r elusen i wasanaethu ei diben neu i weithredu'n effeithiol.

> Sut wnaethoch chi benderfynu ar y lefel cronfeydd i'w chadw?
>
> *"Yn wreiddiol penderfyniad yn y fan a'r lle dwi'n meddwl."*
>
> Ymatebwr i'r arolwg

- Dylai ymddiriedolwyr wneud yn siwr eu bod yn gosod lefel briodol o gronfeydd wrth gefn, wedi ei seilio ar ffactorau sy'n effeithio ar eu helusen, yn hytrach na thrwy ddefnyddio ffigwr neu reol fympwyol.

Cronfeydd wrth gefn a rheoli risg

Mae cynllunio cronfeydd o reidrwydd yn golygu ystyried risg a dylai gael ei ddatblygu ochr yn ochr â pholisi rheoli risg. Mae ymddiriedolwyr elusennau mawr a rhai mawr iawn (incwm blynyddol dros £250,000) yn gorfod cynnwys yn eu hadroddiad blynyddol ddatganiad ynglyn ag a ydynt wedi ystyried y risgiau sy'n wynebu'r elusen ac a ydynt wedi datblygu systemau i liniaru'r risgiau hynny.[11]

Mae gofyniad **SORP** yn mynd ymhellach, yn argymell y dylai pob elusen gynnwys datganiad yn eu hadroddiad blynyddol yn cadarnhau bod y prif risgiau i'r elusen wedi eu nodi a'u hadolygu a bod systemau wedi eu sefydlu i liniaru'r risgiau hynny.[12]

[11] Rheoliad 7(3)(b)(ii) **Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2000**.
[12] SORP 2000 Paragraff 31g.

Dylai ymddiriedolwyr fod yn realistig wrth wneud asesiad risg a chydbwyso'r tebygolrwydd bod pob risg bosibl yn digwydd yr un pryd yn erbyn y peryglon o ddal gormod o arian mewn cronfeydd wrth gefn. Mae'n cyhoeddiad **Elusennau a Rheoli Risg** sydd ar ein gwefan yn trafod y berthynas rhwng cronfeydd a risg yn fanylach.

Cyllid grant a chronfeydd wrth gefn

Dywedodd nifer o elusennau sydd yn cael eu hariannu â grant bod diffyg eglurder yn yr hyn a ddisgwylir ganddynt gan sefydliadau sy'n rhoi grantiau. Yn eu profiad nhw roedd rhai cyllidwyr yn mynnu bod gan ymgeiswyr gronfeydd wrth gefn fel prawf o hyfywedd ariannol yn y dyfodol, tra bod eraill yn ystyried nad oedd angen ariannu elusen oedd â chronfeydd wrth gefn.

Mae'n profiad ni o waith achos yn dangos, ac roedd nifer o elusennau yn sôn, bod rhai cyrff rhoi grant yn gweithredu polisïau cyffredinol, yn gwrthod grantiau'n awtomatig os oedd y cronfeydd wrth gefn yn uwch na swm arbennig. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd elusennau yn cysidro'n aml faint o arian oedd yn 'dderbyniol' yn hytrach nag a oedd y lefel yn addas i gwrdd ag anghenion yr elusen.

> *"Mynnodd un o'n cyllidwyr ein bod yn cadw'n cronfeydd wrth gefn i'r lleiafswm posibl, a gwnaed hyn yn amod i'r grant. Dyna sut y penderfynwyd ar ein lefel cronfeydd wrth gefn."*
>
> Ymatebwr i'r arolwg

Mewn cyferbyniad, dywedodd nifer o'r rhoddwyr grant yr ymgynghorwyd â hwy wrthym ni eu bod yn asesu pob elusen ar sail unigol, ac ar deilyngdod y cynnig yn hytrach nag ar ddefnyddio rheol fympwyol. Roedd rhai rhoddwyr grant wedi adolygu eu polisïau llym ar gronfeydd i ganiatáu mwy o hyblygrwydd.

> *"Fel arfer mae'n haelodau yn asesu cronfeydd wrth gefn sefydliad mewn perthynas â'i gais ar sail achos unigol. Maent yn cymryd i ystyriaeth natur gwaith y sefydliad, ei record yn y gorffennol, ei oed, beth mae am ei gyllido, cynaladwyedd ariannol ayb. Mae cronfeydd y sefydliad yn cael eu rhoi yn y cyd-destun hwnnw."*
>
> Ymgynghorydd elusen

Gall cyrff sy'n rhoi grantiau annog rheolaeth cronfeydd gwell a mwy tryloyw drwy gyhoeddi sut a pham y mae'r lefel cronfeydd y maent yn ystyried yn un addas wedi ei gosod.

- Dylai rhoddwyr grant gyhoeddi eu polisïau ar roi grant a'u polisi tuag at gronfeydd wrth gefn ymgeiswyr.

- Dylai rhoddwyr grant geisio datblygu gweithdrefnau asesu cais am grant sy'n galluogi elusennau i egluro (lle'n berthnasol) eu polisi cronfeydd wrth gefn a chyfiawnhau'r lefel o gronfeydd wrth gefn sydd ganddynt.

Dylai rhoddwyr grant gymryd polisi cronfeydd wrth gefn a lefel cronfeydd wrth gefn elusen i ystyriaeth wrth benderfynu ar ddyfarniadau grant.

Cyfrifoldeb dros bolisïau cronfeydd wrth gefn

Dangosodd ein harolwg mai awdur polisïau cronfeydd wrth gefn fel arfer oedd y 'corff ymddiriedolwyr yn ei gyfanrwydd' (39%). Rydym yn croesawu'r canfyddiad hwn gan ei fod yn awgrymu agwedd iach tuag at bwysigrwydd cronfeydd wrth gefn ac yn dangos rheolaeth dda.

'Aelod o staff' oedd yn gyfrifol am y polisi cronfeydd wrth gefn mewn 25% o elusennau. Cyn belled â bod yna ddulliau ar gyfer sicrhau bod ymddiriedolwyr yn chwarae'u rhan mewn gosod egwyddorion arweiniol y polisi, eu bod yn deall y materion dan sylw ac yn cymryd eu rhan o ddifrif, gall y dull hwn weithio'n dda gyda'r cyfrifoldeb yn gorwedd ar unigolyn fel y cyfarwyddwr cyllid. Pan fo ymddiriedolwyr yn dirprwyo gweithio allan y manylion am sut y dylai elusen reoli ei chronfeydd wrth gefn, mae'n rhaid iddynt ddal i gytuno'n ffurfiol â pholisi cronfeydd wrth gefn cyffredinol yr elusen a chofnodi'r cytundeb hwn, er enghraifft yng nghofnodion cyfarfod ymddiriedolwyr.

Archwilydd yr elusen oedd yn gyfrifol am greu'r polisi yn 8% o'r elusennau yn yr arolwg. Mae archwilwyr yn ffynhonnell cyngor addas i ymddiriedolwyr ond ni ddylent hwy, nag unrhyw drydydd person arall, fod yn gwbl gyfrifol am ysgrifennu'r polisi cronfeydd wrth gefn gan nad eu swyddogaeth hwy yw cyfiawnhau lefel y cronfeydd wrth gefn.

- Dylai ymddiriedolwyr wneud yn siwr eu bod yn deall ac yn cytuno'n ffurfiol â'r egwyddorion y tu ôl i bolisi cronfeydd wrth gefn eu helusen.

Arweiniad a ddefnyddiwyd

Cafodd ymddiriedolwyr gymorth o nifer o ffynonellau i ysgrifennu eu polisi cronfeydd wrth gefn a phenderfynu ar lefel briodol o gronfeydd wrth gefn.

Y ffynhonnell fwyaf poblogaidd o wybodaeth oedd archwilwyr, a ddefnyddiwyd gan dros hanner yr ymatebwyr (56%). Roedd arweiniad y Comisiwn Elusennau **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) yn boblogaidd hefyd (defnyddiwyd gan 46%) fel yr oedd **SORP 2000** (31%).

Er bod elusennau'n ystyried bod **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) yn ymarferol ac yn ddefnyddiol fel man cychwyn, gofynnodd 12% o'r elusennau yn benodol am fwy o arweiniad gan y Comisiwn Elusennau. Dywedodd nifer o elusennau y byddent yn croesawu dull astudiaeth achos o fewn arweiniad y Comisiwn Elusennau, yn darlunio amrywiaeth o bolisïau a dulliau elusen. Dywedodd nifer da o elusennau hefyd y byddent yn croesawu model o bolisi cronfeydd neu eiriad parod y gallent ei addasu.

Defnyddiodd llawer yn llai ein Arweiniad Gweithredol **Cronfeydd Incwm Wrth Gefn Elusennau** (**OG43**) (roedd 11% o'r ymatebwyr wedi cyfeirio ato). Mae hwn yn cynnwys enghreifftiau go iawn gyda sylwebaeth yn rhoi arweiniad ar sut y dylai staff y Comisiwn Elusennau asesu cronfeydd wrth gefn elusennau.

- Bydd y Comisiwn Elusennau yn adolygu **Cronfeydd Incwm Wrth Gefn Elusennau** (**OG43**) a dogfennau perthnasol eraill i gynnwys mwy o enghreifftiau go iawn o bolisïau cronfeydd wrth gefn a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r arweiniad ar-lein hwn.

Ffynonellau cyngor/gwybodaeth a ddefnyddir



Nodyn: mae'r cyfanswm yn fwy na 100% oherwydd gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb

Cyrraedd y lefel cronfeydd wrth gefn y cytunwyd arni a'i chynnal

Dywedodd bron i draean (29%) yr elusennau bod ganddynt lai wrth gefn nag y cynlluniwyd tra mai dim ond un o bob deg elusen (oedd â pholisi cronfeydd wrth gefn) oedd â mwy na'r lefel arfaethedig. I rai, gall y gwahaniaeth rhwng y lefel arfaethedig a'r union lefel neu ystod fod yn gymharol fach a dibwys; i eraill gall fod yn arwyddocaol. Dim ond cywiro gwahaniaethau 'sylweddol' sy'n bwysig.

Roedd sefydliadau maint canolig yn fwy tebygol o fod yn agos at y nod gyda'u lefel cronfeydd wrth gefn (67% o'i gymharu â chyfartaledd o 58%). cSefydliadau mawr iawn oedd yn fwyaf tebygol o fod â llai na'r lefel y cytunwyd arno (40% o'i gymharu â chyfartaledd o 29%). Ni welwyd cysylltiad rhwng y math o weithgaredd y mae'r elusen yn ei wneud ac a ydynt yn cynnal y lefel cronfeydd dymunol.

Elusennau sydd â mwy na'r lefel y cytunwyd arni

Roedd y rhesymau cyffredin a roddwyd gan elusennau ynglyn â pam bod ganddynt fwy na'r lefel arfaethedig mewn cronfeydd wrth gefn yn cynnwys derbyn incwm neu roddion annisgwyl (7%) a gwariant yn llai na'r disgwyl (2%).

Pan ofynnwyd sut oedd ymddiriedolwyr yn bwriadu unioni'r sefyllfa, yr atebion cyffredin oedd gwasgaru cyllid gormodol i achosion eraill a chynllunio prosiectau cyfalaf (Mae Atodiad A, Tabl 11 yn rhoi manylion pellach).

Dywedodd rhai ymddiriedolwyr oedd â chronfeydd uwchlaw'r lefel y cytunwyd arni nad oedd ganddynt unrhyw fwriad o'u gostwng. Roeddent yn gweld lefel y cronfeydd wrth gefn fel isafswm y byddent yn barod iawn ei chynyddu. Nid yw hyn yn dderbyniol gan y gallai glymu asedau y gellid eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau elusennol, felly mae'n annheg i'r buddiolwyr presennol a rhai yn y dyfodol.

Gostwng cronfeydd wrth gefn drwy gynyddu gwariant…

Mae cynyddu gwariant yn ffordd dda o ostwng cronfeydd gan ei bod yn arwain at gynyddu lles y buddiolwyr, ond dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod ganddynt y gallu a'r strwythur trefniadol i ddelio â'r gweithgareddau ychwanegol os ydynt yn gwneud hynny, a'u bod wedi asesu'r risgiau'n iawn. Cerrig Milltir: rheoli digwyddiadau allweddol ym mywyd elusen (RS6) yn edrych yn fanylach ar y pwnc hwn.

Roedd gan un ymddiriedolaeth rhoi grantiau ddull syml iawn o ostwng cronfeydd.

Roedd gan yr ymddiriedolaeth fwy o gronfeydd wrth gefn nag a gynlluniwyd oherwydd lleihad mewn ceisiadau grant. Gan sylweddoli bod gan yr elusen arian y gellid ei wario, penderfynodd yr ymddiriedolwyr fynd ati i chwilio am ragor o geisiadau grant.

Roedd y dasg hon yn gymharol syml; anfonwyd manylion yr ymddiriedolaeth i gyrff oedd â chysylltiadau â buddiolwyr posibl, gan godi ymwybyddiaeth o'r cyllid oedd ar gael a chynyddu'r potensial am geisiadau grant llwyddiannus.

Os na all yr ymddiriedolwyr wario'u hadnoddau sy'n dod i mewn i gyd ar y dibenion sydd yn eu dogfen lywodraethu, mae'n ddyletswydd arnynt i gysylltu â'r Comisiwn Elusennau i drafod opsiynau posibl. Os yw'r Comisiwn yn cytuno y byddai'n anodd gwario'u hincwm i gyd ar yr amcanion presennol, gellid ehangu amcanion yr elusen, er enghraifft, drwy wneud Cytundeb neu roi awdurdod o dan Adran 64 o Ddeddf Elusennau 1993.

Gostwng cronfeydd wrth gefn drwy leihau incwm…

Dylai ymddiriedolwyr feddwl yn ofalus cyn stopio neu leihau codi arian i ostwng neu gynnal cronfeydd wrth gefn ar lefel arbennig. Unwaith bod rhoddwyr neu gyrff rhoi grant yn meddwl bod yr angen am arian wedi gostwng gall fod yn anodd iawn ail-sefydlu'r llif incwm hwnnw. Er mwyn osgoi camddealltwriaeth, dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn agored ac yn dryloyw am eu sefyllfa ariannol yn eu holl waith codi arian.

"Mae rhai pobl o dan yr argraff bod codi arian yn switsh y gallwch chi ei gynnau neu ei ddiffodd. Nid felly mae hi; unwaith eich bod yn cynyddu neu'n gostwng yr ymdrech godi arian mae'n cymryd blynyddoedd i hyn gael ei drosi yn godiadau neu ostyngiadau incwm gwirioneddol."

Cyfarwyddwr cyllid elusen

Lleihau ymddangosiad cronfeydd…

Mae'n hymchwil wedi dangos bod elusennau'n gwneud rhywfaint o 'sioe' i ostwng y lefelau sy'n cael eu dangos yn eu cyfrifon. Caiff cronfeydd dynodedig eu defnyddio gan sawl elusen sydd heb unrhyw fwriad o ddefnyddio'r arian at y pwrpas dynodedig mewn gwirionedd. Gall dynodiadau gael eu sefydlu ac yna eu hail-greu yn gymharol hawdd gan mai tasg weinyddol yw dynodi nad yw'n cynnwys unrhyw ddiffiniad cyfreithiol o'r arian.

"Mae rhai elusennau yn 'corddi' sy'n golygu bod cyfarwyddwyr cyllid yn symud arian o gwmpas mewn cronfeydd dynodedig yn flynyddol, sy'n eu gwneud yn dda i ddim."

Cyfarwyddwr cyllid elusen

Mae cadw cronfeydd uwch na'r hyn sydd angen ar yr elusen, yna ceisio cuddio'r gormodedd mewn cronfa ddynodedig, yn camddarlunio gwir sefyllfa ariannol yr elusen i roddwyr a budd-ddeiliaid. Yn yr un modd, os nad yw cyfrifon yr elusen yn cael eu gweld fel rhai gonest a dibynadwy, mae integriti'r elusen a'r sector cyfan yn cael ei amau. Bydd y Comisiwn Elusennau yn ymyrryd pan fydd yn dod ar draws yr arferion yma.

Cyrraedd y lefel cronfeydd wrth gefn y cytunwyd arni a'i chynnal

Nid yw dynodi cronfeydd incwm, ynddo'i hun, yn rhyddhau ymddiriedolwyr o'u dyletswydd i allu cyfiawnhau cadw'r cronfeydd hynny. Os yw ymddiriedolwyr yn sefydlu cronfa ddynodedig mae gofyn iddynt roi rhesymau dros hynny.[13] Ceir manylion am yr amgylchiadau lle mae'n briodol i sefydlu cronfa ddynodedig yn ein Arweiniad w Gweithredol, **Cronfeydd Incwm Wrth Gefn Elusennau** (**OG43**).

Mae'r Comisiwn Elusennau'n gweld problemau pan fo ymddiriedolwyr yn cynnig ariannu allan o'r gronfa ddynodedig brosiectau sydd:

- yn arbennig o annelwig a heb eu diffinio'n iawn;
- mor bell yn y dyfodol fel nad ydynt yn realistig; neu
- yn golygu defnyddio cymaint o adnoddau'r elusen i'r dyfodol fel ei bod yn amheus a yw'r ymddiriedolwyr yn cydbwyso eu cyfrifoldebau cyfreithiol tuag at fuddiolwyr yn y presennol a'r dyfodol.

Mae'r achos hwn yn amlygu'r angen i elusennau ddatgan cynlluniau eu prosiect yn eglur.

Roedd gan elusen fawr oedd yn rhoi grantiau gronfeydd anghyfyngedig o sawl miliwn o bunnau. Roedd yr elusen wedi cynyddu ei buddsoddiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn ac wedi datgan y bwriad o ymgymryd â phrosiect mawr yn y dyfodol.

Nid oedd yr elusen wedi darparu cynlluniau cynhwysfawr yn ymwneud â'r prosiect. Nid oeddent wedi rhoi manylion am pryd neu lle oedd y prosiect wedi ei gynllunio na faint fyddai'n ei gostio.

Er gwaethaf y ffaith bod yr adnoddau a ddaeth i mewn mewn blwyddyn ariannol ddiweddar dros £150,000 dim ond mymryn bach o hyn (llai na £4,000) a wariodd yr elusen ar wariant elusennol uniongyrchol.

Mae achosion fel hyn yn dod i'r amlwg o ganlyniad i'n rhaglen fonitro a byddwn yn gweithio gyda'r ymddiriedolwyr i sicrhau eu bod yn adolygu eu rhaglen wariant.

Yn yr achos hwn dywedwyd wrth yr ymddiriedolwyr bod yn rhaid iddynt naill ai wario'r arian neu roi eglurhad boddhaol am pam bod angen ei gadw. Erbyn hyn mae ganddynt gopi o'n taflen ganllaw **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) ac maent yn ystyried eu hopsiynau.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn poeni fwy a mwy am y nifer o elusennau nad yw eu dynodiadau wedi eu diffinio'n dda ac rydym yn chwilio am ffyrdd i wneud yn siwr bod elusennau'n datgelu eu cynlluniau arfaethedig yn y modd cywir.

[13] **SORP 2000** Paragraff 129.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn dod ar draws 'problemau datgelu' pan fo ymddiriedolwyr yn methu â dweud wrth eu budd-ddeiliaid beth yw hyd a lled eu cynlluniau. Mae'r Comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr, ar gais, allu dangos cynigion i'r budd-ddeiliaid perthnasol am gynlluniau arfaethedig. Gallai'r rhain gynnwys cynllun busnes, amcangyfrif o gostau, dogfennau cynllunio, amserlenni neu unrhyw fanylion eraill sy'n dangos pam bod angen rhoi'r swm hwnnw o'r neilltu mewn cronfa ddynodedig.

Ar hyn o bryd mae cronfeydd dynodedig wedi eu heithrio o'r diffiniad o gronfeydd ar gyfer dibenion gweinyddol ymarferol. Ond cred rhai y dylent gael eu cynnwys yn y diffiniad o gronfeydd gan eu bod ar gael i gael eu defnyddio pe bai'r angen yn codi.

> *"Dylem eithrio cronfeydd cyfyngedig ac asedau sefydlog ond mae cronfeydd dynodedig yn niwlog ac yn anodd oherwydd mewn rhai ffyrdd maent yn aml yn rhan o'r arian rhag ofn oherwydd gallwch eu defnyddio os ydych yn dymuno hynny."*
>
> Cyfarwyddwr cyllid elusen

Gallai newid y diffiniad presennol o gronfeydd wrth gefn (gweler Atodiad B) i gynnwys cronfeydd dynodedig leihau'r temtasiwn i elusennau symud arian o gronfeydd.

Fodd bynnag, gallai hyn wneud y dryswch am derminoleg cyfrifon yn waeth. Beth bynnag, ni fyddai angen gwneud dim pe bai ymddiriedolwyr yn datgelu'n llawn eu rhesymau dros ddynodiadau ac yn rhoi manylion y symiau ym mhob cronfa.

- Ni ddylai ymddiriedolwyr geisio cuddio na lleihau ymddangosiad cronfeydd yn eu cyfrifon.

- Bydd y Comisiwn Elusennau, mewn cydweithrediad â Phwyllgor SORP yn ystyried ymhellach statws cronfeydd dynodedig a ph'un ai eu cynnwys neu eu heithrio o'r diffiniad o gronfeydd wrth gefn.

Elusennau sydd â llai na'r lefel y cytunwyd arni

I nifer o elusennau moethusrwydd yw'r syniad o ormod o gronfeydd wrth gefn, ac maent yn cael trafferth adeiladu cronfeydd wrth gefn i'r lefel a osodwyd ganddynt yn eu polisi cronfeydd wrth gefn.

> *"Nid yw'n anodd datblygu polisi cronfeydd wrth gefn ond mae'n anodd adeiladu'r cyllid ar gyfer cronfeydd wrth gefn."*
>
> Ymatebwr i'r arolwg

Roedd y rhesymau a roddwyd gan elusennau dros gael llai na'r lefel arfaethedig o gronfeydd yn cynnwys: profi cwymp neu amrywiad mewn incwm (14%); cyfnod o wariant cyfalaf uchel (9%); dymuno cynnal neu ehangu eu lefel o wasanaethau neu weithgareddau (8%); a symudiadau'r farchnad stoc a oedd wedi gostwng eu hincwm buddsoddiad a gwerth cronfeydd wrth gefn.

Roedd y ffaith mai dim ond am gyfnod byr yr oedd yr elusen wedi bod yn gweithredu neu mai dim ond newydd ddatblygu polisi cronfeydd yr oedd hefyd yn rheswm dros fod â llai na'r lefel arfaethedig o gronfeydd (5%) (gweler atodiad A Tabl 10 i gael manylion llawn).

> *"Mae gweithredu'n polisi arfaethedig yn broses raddol. Rydym wedi nodi targedau ariannol yng nghyllideb y flwyddyn ac rydym yn gweithio tuag atynt."*
>
> Ymatebwr i'r arolwg

Pan oedd lefel cronfeydd presennol ymddiriedolwyr yn llai na digonol, roeddent yn barod i gymryd cyfres o gamau i unioni hynny. Dywedodd dros chwarter (28%) y rheiny oedd â llai na'u lefel arfaethedig eu bod yn anelu at adeiladu neu ail-adeiladu eu cronfeydd wrth gefn yn y dyfodol. Dywedodd 16% pellach y byddent yn cynllunio'n strategol i gyrraedd eu hamcanion ariannol.

Mae nifer o elusennau yn datgan union lefel a lefel ddelfrydol eu cronfeydd yn eu hadroddiad blynyddol, p'un a yw'r lefel bresennol yn is na'r targed ai peidio. Roedd nifer fach o elusennau yn teimlo, fodd bynnag, y gellid gweld hyn fel arwydd o wendid neu fel 'cyfaddefiad' a allai wneud drwg iddynt.

> *"Gall elusennau deimlo eu bod yn dinoethu eu hunain yn eu hadroddiad blynyddol trwy gynnwys y ffaith yr hoffent gael cronfa wrth gefn ond na ydynt yn medru gwneud hynny. Credaf y bydd hyn yn faen tramgwydd i lawer."*
>
> Ymddiriedolwr elusen

Nid oes mantais mewn datgan yn anghywir bod y cronfeydd wrth gefn ar lefel ddelfrydol, neu hepgor sylwadau ar gronfeydd oherwydd eu bod yn is na'r disgwyl. Mae'n hollol briodol i elusennau nad oedd wedi gallu adeiladu cronfeydd wrth gefn i'r lefel ddymunol i godi arian at ddiben penodol ychwanegu at gronfeydd wrth gefn, a gall y dull hwn fod yn llwyddiannus yn aml. Dylai ymddiriedolwyr sy'n dilyn y cam hwn wneud yn siwr bod rhoddwyr yn gwbl ymwybodol o'r diben y mae angen yr arian ar ei gyfer.

Dylai elusennau nad ydynt yn gallu sefydlu cronfeydd wrth gefn i'r lefel sy'n ddymunol ystyried ffyrdd o leihau'r perygl o doriad mewn llif incwm, er enghraifft trwy arallgyfeirio eu sail cyllid neu drwy ddatblygu cynlluniau wrth gefn gwahanol.

Roedd gan rai o'r elusennau a astudiwyd gynlluniau wrth gefn a fyddai'n ddefnyddiol yn lle cronfeydd wrth gefn. Roedd y rhain yn cynnwys gorddrafft neu glustog ariannol arall (32%) neu help gan aelodau neu noddwyr (23%). Ond nid oedd gan 26% ohonynt drefniadau argyfwng. Nid oedd gan yr elusennau yma unrhyw ffordd o sicrhau na fyddai cwymp sydyn mewn incwm yn golygu cwtogi eu gweithgareddau elusennol.

"Nid yw nifer o elusennau yn gwybod digon am gynaladwyedd. Cyfrifoldeb rhoddwyr grant ac elusennau yw newid y cylch."

Llefarydd corff adnoddau elusen

Dangosodd yr ymchwil bod rhai elusennau yn fedrus mewn defnyddio cronfeydd hylifol o wahanol rannau o'r fantolen fel rhan o reoli eu cronfeydd. Dywedodd un elusen ei bod yn defnyddio cronfeydd cyfyngedig fel rhan o'i pholisi cronfeydd wrth gefn. Roedd hyn yn bosibl oherwydd roedd gan yr elusen nifer fawr o gronfeydd cyfyngedig na fyddai angen troi atynt i gyd yr un pryd. Roedd hyn yn rhoi rhywfaint o warant ac yn caniatau i'r elusen gadw llai o weddill wrth gefn yn eu cronfeydd anghyfyngedig. Fodd bynnag, gallai arfer o'r fath fod yn anghyfreithlon. Gall ymddiriedolwyr sy'n defnyddio cronfeydd cyfyngedig i gefnogi gwaith y tu allan i'r cyfyngiad hwnnw fod yn torri ymddiriedaeth gan na fyddant yn gallu defnyddio'r arian i'r diben arfaethedig, pe bai angen gwneud hynny. Rhaid egluro unrhyw ddiffyg mewn cronfa yn yr adroddiad blynyddol, ynghyd â chynlluniau i'w unioni.[14]

- Dylai ymddiriedolwyr wneud yn siwr bod cynlluniau realistig mewn lle i gynnal cronfeydd wrth gefn yr elusen ar y lefel neu o fewn yr ystod a amlinellwyd yn y polisi ac ar gyfer rheoli effaith unrhyw newid.

- Dylai ymddiriedolwyr ystyried yn ofalus y risgiau a'r camau y gellir eu cymryd pan fo cronfeydd wrth gefn elusen dipyn yn is na'r lefel angenrheidiol i redeg eu corff yn effeithiol.

- Ni ddylai ymddiriedolwyr ddefnyddio cronfeydd cyfyngedig yn gronfeydd wrth gefn fel cyllid cyffredinol.

Adolygu'r polisi

Bob hyn a hyn dylai elusennau ailedrych ar eu dull o reoli cronfeydd er mwyn gwneud yn siwr ei fod yn cwrdd â'u hanghenion presennol. Fel arfer da, dylai'r adolygiad hwn ddigwydd o leiaf unwaith y flwyddyn, ochr yn ochr ag adolygiad o berfformiad ariannol a threfniadol yr elusen. Gall digwyddiadau allweddol, fel un ffynhonnell incwm amlwg yn dod i ben neu'n newid, alw am adolygiadau amlach.

Dangosodd ein hymchwil bod y rhan fwyaf o elusennau'n adolygu eu polisi, er bod bron i un o bob pedair (23%) yn gwneud hynny'n anghyson neu ddim o gwbl. Heb yr adolygiad hwn, ni all elusennau fod yn hyderus eu bod yn cymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr amgylchedd y maent yn gweithredu o'i fewn.

Strategaeth fuddsoddi

Mae penderfynu lle y dylid buddsoddi cronfeydd yn benderfyniad allweddol i'w gymryd yng nghyd-destun strategaeth ariannol ehangach yr elusen a dylid ei adolygu'n rheolaidd. Dylai nifer of ffactorau gael eu hystyried lle mae'n briodol buddosddi, gan gynnwys:

- lefel risg neu anwadalrwydd y buddsoddiad;

- yr angen am elw incwm da; a'r

- angen am hylifedd (pa mor hawdd y gellir troi'r ased yn arian parod).

[14] **SORP 2000** Paragraff 31 (f).

Mae'r astudiaeth achos yma'n yn dangos sut yr aeth elusen fawr iawn ati i ddewis y ffordd fwyaf addas o fuddsoddi ei chronfeydd wrth gefn:

Datblygodd yr elusen 'fframwaith ariannol', oedd yn cyfuno pob elfen o'i chynllunio ariannol ac yn ymdrin ag elfennau cysyniadol ac ymarferol gwneud penderfyniadau o fewn y sefydliad. Yna datblygodd yr elusen bolisïau ar gyfer risg, buddsoddi a chronfeydd a oedd i gyd yn perthyn i'w gilydd o fewn y fframwaith hwn.

Wrth wneud penderfyniadau i fuddsoddi, gall yr ymddiriedolwyr gyfeirio'n ôl at y fframwaith a gweithio drwy gyfres o gwestiynau, fel:

- Pam bod gennym gronfeydd i'w buddsoddi?
- Yn beth y dylem eu buddsoddi?
- Faint sy'n rhaid i ni fuddsoddi?
- Am ba hyd y mae angen i ni fuddsoddi?
- Gyda phwy y dylem ni fuddsoddi?
- Pryd mae angen i ni wneud y penderfyniad?
- Pa wybodaeth ydym ni ei hangen?
- Beth yw goblygiadau'r polisi?

Gall un ffactor bwyntio at opsiwn risg isel tra bod un arall yn pwyntio at opsiwn risg uwch i gael gwell elw. Mae gwneud penderfyniadau buddsoddi'r elusen yn golygu pwyso'r ffactorau yma yn erbyn ei gilydd yng nghyd-destun y fframwaith ariannol.

Drwy ddilyn y broses hon gall yr ymddiriedolwyr fod yn hyderus eu bod wedi dilyn y llwybr sy'n fwyaf addas i'w hanghenion presennol.

Fel gydag unrhyw benderfyniad buddsoddi, mae'n hanfodol bod yr ymddiriedolwyr yn cyflawni eu dyletswydd gofal cyffredinol, yn cymryd cyngor addas ac yn dilyn y meini prawf buddsoddi safonol a amlinellir yn Adran 4(1) o Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000.[15]

Ceir arweiniad llawn ar elusennau a buddsoddi yn **Buddsoddi Cronfeydd Elusennol: Egwyddorion Sylfaenol** (CC14) a gyhoeddir ar wefan y Comisiwn Elusennau.

Newidiadau yng nghyflwr y farchnad stoc

Dylai cwymp disgwyliedig mewn elw buddsoddi o ganlyniad i gyflwr isel y farchnad stoc, fel ag a welir ar hyn o bryd, arwain at adolygiad o bolisi cronfeydd i'r elusennau hynny sydd â buddsoddiadau sylweddol yn y farchnad stoc.

[15] Dim ond i eiddo a gedwir ar ymddiriedaeth y mae Deddf Ymddiriedolwr 2000 yn gymwys, nid i eiddo corfforaethol cwmnïau elusennol.

Bydd angen i elusennau sydd wedi colli cyfran uchel o'u portffolio buddsoddi ystyried eu hopsiynau yn ofalus er mwyn sicrhau parhad eu gwaith elusennol yn y tymor hir. Mae rhai elusennau wedi rhagweld effaith dirywiad yng ngwerth y farchnad stoc, wedi cynllunio eu cronfeydd yn unol â hynny a gallant nawr symud cyllid i gynnal y lefelau gwasanaeth presennol. Mae'n bosibl bod eraill wedi penderfynu gostwng eu gwariant a gall eraill fod wedi canfod gweithgareddau neu ffynonellau incwm newydd. Bydd y cyfuniad a'r ateb gorau yn wahanol i bob elusen.

Cyfanswm elw

O dan reolau safonol buddsoddiad bydd yr elw ar y buddsoddiad yn cael ei alw naill ai'n incwm neu'n gyfalaf yn dibynnu ar y ffurf y deilliodd ohono (difidendau, llog, enillion cyfalaf). O dan reolau Cyfanswm Elw nid yw elw'r buddsoddiad yn cael eu labelu y naill ffordd na'r llall.

Er mwyn mabwysiadu polisi Cyfanswm Elw, bydd angen i ymddiriedolwyr wneud cais am bwer gan y Comisiwn Elusennau. Fel arfer bydd hyn ar ffurf Gorchymyn o dan Adran 26 o Ddeddf Elusennau 1993.

Mae Cyfanswm Elw yn gweithio trwy ddyrannu cyfran o'r 'cyfanswm elw' (gweler Atodiad B) i'r 'ymddiriedaeth i'w ddefnyddio' pan fo'r ymddiriedolwyr yn meddwl bod angen hynny, ond yn amodol ar ddyletswydd hollbwysig o degwch tuag at fuddiolwyr presennol dyfodol. Unwaith bod yr arian yn yr ymddiriedolaeth i'w ddefnyddio dylid gwneud hynny o fewn amser rhesymol ac mae'n cael ei gyfrif yn incwm.

Fel arfer ni fydd angen i ymddiriedolwyr gadw cronfeydd yn hir yn yr ymddiriedolaeth i'w defnyddio (incwm) gan eu bod yn rhydd i drosi Cyfanswm Elw nas defnyddiwyd yn incwm unrhyw bryd, yn amodol ar y dyletswydd tegwch a grybwyllwyd uchod. Os yw arian yn cael ei gadw yn yr ymddiriedolaeth i'w ddefnyddio (incwm) dylid gwneud hyn yn unol â pholisi priodol ar gynnal cronfeydd wrth gefn.

Ceir arweiniad manwl ar Gyfanswm Elw yn ein Harweiniad Gweithredol, **Elusennau Gwaddoledig: Dull Cyfanswm Elw at Fuddsoddiad** (OG 83).

Buddion ymddeoliad

Mae nifer sylweddol o elusennau yn cymryd rhan mewn cynlluniau pensiwn budd-dâl diffinedig. Mae cyflwyno safon cyfrifo newydd - **FRS 17**: **Buddion Ymddeoliad** - gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo wedi tynnu sylw at sut y dylai'r driniaeth gyfrifo ddylanwadu ar y polisïau cronfeydd wrth gefn elusennau. Wrth fabwysiadu'r safon yn llawn, bydd elusennau sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath yn gorfod gwneud datgeliad ychwanegol yn eu mantolen. Rhaid iddynt ddatgelu'r asedau adenilladwy neu'r atebolrwydd tebygol fydd yn codi o unrhyw weddill neu ddiffyg actiwaraidd yn y cynllun a fesurwyd yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd yn y safon.

Ar hyn o bryd dim ond ychydig o elusennau sydd wedi mabwysiadu'r safon yn llawn ac felly ni ellir asesu effaith y driniaeth gyfrifo newydd ar y polisïau cronfeydd wrth gefn sydd wedi eu mabwysiadu.

Ni fydd y driniaeth gyfrifo a fabwysiedir mewn cyfrifon statudol ynddi ei hun yn effeithio ar lifoedd incwm elusen sy'n cymryd rhan. Bydd y cyfraniadau sydd angen i elusen eu rhoi, fel cyflogwr, yn digwydd drwy negodi ag ymddiriedolwyr pensiwn neu drwy ofynion statudol fel arfer, a gall y naill ffordd neu'r llall gael eu cyfrifo'n wahanol i'r rhai a ddefnyddir at ddibenion datgelu cyfrifo. Ond mae FRS 17 wedi tynnu sylw at ariannu cynlluniau o'r

fath yn enwedig yng nghyd-destun diffygion sylweddol a sut y dylid mynd i'r afael â'r effaith ar y llif ariano ganlyniad i hynny wrth ffurfio polisïau cronfeydd wrth gefn.

- Bydd y Comisiwn Elusennau mewn ymgynghoriad â Phwyllgor SORP a chyrff proffesiynol yn gweithio ar ddarparu arweiniad penodol ar fynd i'r afael ag effaith cynlluniau pensiwn budd-dâl diffinedig ar bolisïau cronfeydd wrth gefn. Gan fod y materion dan sylw yn ymwneud â rheolaeth ariannol yn hytrach na datgeliadau ariannol bydd yr arweiniad hwn yn cael ei roi ar wahân i un SORP.

- Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod eu polisi buddsoddi a'u fframwaith llywodraethu yn cael eu hadolygu o dro i dro i gymryd ystyriaeth o'r newidiadau i'r amgylchedd y mae'r elusen yn gweithredu oddi mewn iddo.

Dim ond os ydynt wedi cyhoeddi polisi cronfeydd wrth gefn digonol y gall elusennau fod yn hyderus eu bod wedi egluro eu sefyllfa gronfeydd wrth gefn i fudd-ddeiliaid. Mae lefel manylder y polisi cronfeydd wrth gefn yn hynod o bwysig felly a dylai roi ystod o wybodaeth sy'n ymwneud â rheoli cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â rheolaeth gyffredinol yr elusen.

Er mwyn egluro eu sefyllfa gronfeydd wrth gefn yn llwyddiannus, mae angen i ymddiriedolwyr ddeall natur eu cronfeydd yn gyffredinol a'u disgrifio drwy ddefnyddio'r termau cywir.

Dosbarthu cyllid

Mae rai elusennau rywfaint yn ansicr ynglyn â'r ffordd gywir o ddosbarthu adnoddau. Mae adnoddau elusennau yn disgyn i un o dri chategori: gwaddoliad parhaol, gwaddoliad gwariadwy neu incwm. Rhaid i adnoddau fod oddi mewn i'r dadansoddiad hwn.

Mae'r achos yma'n dangos y problemau a all ddigwydd os yw cyllid yn cael ei ddosbarthu'n anghywir yng nghyfrifon elusennau.

Roedd gan elusen fawr dros £2 miliwn yn cael ei ddangos fel cronfeydd incwm anghyfyngedig ar ei fantolen.

Roedd yr arian wedi dod o werthu tir nifer o flynyddoedd ynghynt. Oherwydd natur y tir a werthwyd, roedd yr arian yn waddoliad parhaol mewn gwirionedd. Roedd felly yn ymddiriedolaeth i'w fuddsoddi, a dylai fod wedi cael ei gyfrifo felly; ni ddylai fod wedi cael ei ddosbarthu fel incwm anghyfyngedig.

Roedd yr ymddiriedolwyr yn cael anhawster codi arian ac yn cael eu cyhuddo o fod â 'digon o arian' oherwydd bod rhoddwyr yn meddwl y gallai'r arian hwn gael ei wario ar eu buddiolwyr.

Rhoddodd ymweliad adolygu gyfle i'r ymddiriedolwyr asesu'r cronfeydd oedd ganddynt. Gyda help staff y Comisiwn Elusennau, fe ddaethant i'r casgliad mai gwaddoliad parhaol oedd yr arian, ac felly cafodd ei ddosbarthu'n gywir ar y fantolen.

Bydd dosbarthu'r arian yn gywir yn golygu chwalu'r gred oedd gan gyfranwyr a buddiolwyr bod digon o arian parod gan yr elusen.

Er mwyn gwneud yn siwr bod adnoddau'n cael eu dosbarthu'n gywir, dylai ymddiriedolwyr ddilyn nifer o reolau sylfaenol. Ceir golwg gyffredinol fras yma ac mae arweiniad llawn ar gael yn SORP.

Mae'r cronfeydd cywir i roi adnoddau ynddynt yn dibynnu ar y ffordd y cafodd yr elusen yr adnodd. Gall penderfynu ar ffynhonnell wreiddiol yr arian fod yn anodd ac yn gymhleth, ac weithiau mae'n fater o ddyfalu ar ran yr ymddiriedolwyr. Ond mae'n hanfodol bod ymddiriedolwyr, cyn belled ag sy'n ymarferol, mewn perthynas ag unrhyw adnodd arbennig, yn gwybod a ydynt:

- yn gorfod ei fuddsoddi (gwaddoliad parhaol);
- yn gallu ei fuddsoddi neu ei wario (gwaddoliad gwariadwy); neu
- a ddylent ei wario o fewn cyfnod rhesymol o'i dderbyn (incwm). P'un ai bod incwm yn gyfyngedig neu'n anghyfyngedig, rhaid ei wario yr un fath at ddibenion yr elusen, neu, yn achos incwm cyfyngedig, at ddibenion perthnasol yr elusen, o fewn cyfnod rhesymol o'i dderbyn.

Pan fo adnoddau wedi dod o werthu nwyddau neu wasanaethau dylent fel rheol gael eu dosbarthu fel incwm.

Pan fo'r ffynhonnell yn elw ar fuddsoddiad, bydd ei thriniaeth yn dibynnu ar natur yr elw. Mae rheolau arbennig cyfraith ymddiriedolaeth yn penderfynu fel arfer pe enillion o fuddsoddi'r gwaddoliad sy'n incwm, a pha rai sydd i'w hychwanegu at y gwaddoliad. Gall sefydlydd yr elusen newid y rheolau hyn pan fo elusen yn cael ei sefydlu, neu gallwn ni (fel wrth weithredu'n polisi Cyfanswm Elw). Pan fo enillion buddsoddi'n deillio o fuddsoddi cronfeydd incwm anghyfyngedig, mae'r elw fel arfer yn incwm anghyfyngedig.

Pan fo arian wedi dod yn sgil apêl am incwm, rhaid i'r ymddiriedolwyr weithredu'n unol â'r telerau y codwyd yr arian oddi tanynt a'u dosbarthu fel incwm. (Gall hyn fod yn incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig, yn dibynnu ar delerau penodol yr apêl). Ar y llaw arall, os cafodd apêl am waddoliad ei gwneud (naill ai un barhaol neu wariadwy), dylid dosbarthu'r arian a godwyd fel gwaddoliad.

Wrth dderbyn rhodd uniongyrchol i elusen, mae angen i'r ymddiriedolwyr asesu'n gyntaf a fwriadwyd y rhodd fel gwaddoliad parhaol. Os oes cyfarwyddyd penodol gan y rhoddwr i fuddsoddi'r rhodd, ac nad oes pwer i drosi'r rhodd yn incwm, mae'r sefyllfa'n glir. Fel arall gall fod angen dadansoddiad gofalus i benderfynu a oedd y rhoddwr, serch hynny, yn bwriadu creu ymddiriedolaeth ar gyfer buddsoddi. Mewn cyd-destun ysbyty, er enghraifft, mae'r ymadrodd 'gwaddoli gwely' wedi cael ei drin fel cyfarwyddyd y dylid buddsoddi'r rhodd. Os yw ymddiriedolwyr yn ansicr, dylent gysylltu â'r Comisiwn Elusennau a all helpu gyda chyngor cyfreithiol.

Os nad yw'r rhodd yn waddoliad parhaol, mae angen i ymddiriedolwyr sefydlu a yw'n waddoliad neu'n incwm gwariadwy. Er mwyn i'r ymddiriedolwyr drin y rhodd fel un sy'n cael ei chadw ar ymddiriedolaeth i'w buddsoddi, gyda phwer i drosi'r gwaddoliad yn incwm (gwaddoliad gwariadwy), dylai fod rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu mai dyma oedd bwriad y rhoddwr. Mae dymuniadau rhoddwyr o'r pwys mwyaf wrth ganfod a yw'r arian yn waddoliad gwariadwy neu'n incwm.

Gall penderfynu ar fwriad y rhoddwr fod yn anodd, ond, anodd neu beidio, rhaid gwneud hyn er mwyn dosbarthu adnoddau yn waddoliad gwariadwy. Nid dim ond mater o ddewis i'r ymddiriedolwyr sy'n derbyn y rhodd ydyw.

Egluro'r sefyllfa cronfeydd wrth gefn

Er mwyn penderfynu ar fwriad y rhoddwr, dylai ymddiriedolwyr ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol ac amgylchiadol. Mae sefyllfa'r Comisiwn ar hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein Harweiniad Gweithredol **Cronfeydd Incwm Wrth Gefn Elusennau** (**OG43**).

Pan fo ymddiriedolwyr yn fodlon bod y rhodd wedi ei bwriadu fel gwaddoliad gwariadwy, mae'n bwysig eu bod wedyn yn dangos y gronfa yng ngholofn gwaddoliad cyfrifon yr elusen (dylai'r dadansoddiad rhwng gwaddoliad parhaol a gwariadwy gael ei wneud mewn nodiadau i'r cyfrifon).

Pan nad yw rhoddion uniongyrchol i'r elusen yn waddoliad parhaol, dylai ymddiriedolwyr allu rhoi rhesymau clir pam eu bod yn credu mai gwaddoliad gwariadwy yw'r rhodd, os ydynt yn ei thrin felly. Dylai ymddiriedolwyr allu dangos 'llwybr archwilio' o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd ganddynt i benderfynu ar y dosbarthiad hwnnw. Dylai hwn fanylu ar eu hymdrechion i sefydlu natur y rhodd a'r dystiolaeth y seiliwyd y dosbarthiad terfynol arni.

Os nad oes tystiolaeth bod y rhoddwr wedi bwriadu'r rhodd fel gwaddoliad parhaol neu wariadwy, dylid cymryd yn ganiataol ei fod wedi bwriadu i'r rhodd gael ei defnyddio fel incwm. Rhaid iddi felly gael ei dosbarthu fel incwm yn y cyfrifon a'i defnyddio at ddibenion yr elusen o fewn cyfnod 'rhesymol' o'i derbyn.

- Er mwyn gwneud yr eithaf o effeithioldeb elusen, dylid annog rhoddwyr i roi rhoddion cyffredinol. Pan fo gan roddwyr syniadau clir am y defnydd o'r rhodd, er enghraifft p'un a ellir ei thrin fel incwm neu i greu gwaddoliad gwariadwy, dylent roi cyfarwyddiadau clir fel bod yr elusen yn gallu ei dosbarthu i'r gronfa gywir.

Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod gofynion cyfrifo a chofnodi elusennau (SORP) yn cael eu defnyddio'n gyson wrth gyflwyno cronfeydd wrth gefn yn eu cyfrifon blynyddol a dylent fod yn gallu rhoi, ar gais, eglurhad am ddosbarthiad eu hadnoddau a'r ffyrdd y mae cronfeydd yn cael eu rhannu rhwng cronfeydd wrth gefn a rhai dynodedig.

Darganfuwyd ymddiriedolaeth rhoi grantiau gan ein system fonitro oherwydd bod eu cyfrifon yn dangos cronfeydd wrth gefn o fwy na 60 mlynedd o wariant elusennol uniongyrchol.

Cysylltodd staff y Comisiwn Elusennau â'r ymddiriedolwyr a daeth yn amlwg wedyn mai gwaddoliad gwariadwy oedd y gronfa mewn gwirionedd, a oedd wedi ei greu yn amlwg drwy ddymuniadau'r rhoddwr ac roedd pwer yr elusen i grynhoi wedi ychwanegu ato.

Felly, roedd y gronfa hon y tu allan i'r diffiniad o gronfeydd wrth gefn ac roedd yn cael ei rheoli'n briodol yn unol â'r ymddiriedolaeth.

Gallai'r cyfrifon fod wedi bod yn dipyn mwy eglur wrth nodi'r math o gronfeydd a oedd gan yr elusen, yn enwedig gan bod yr ymddiriedolwyr eisoes yn fodlon mai gwaddoliad gwariadwy oedd yr adnoddau.

- Wrth wneud apeliadau, dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn ei gwneud yn glir at ba ddiben y maent yn bwriadu defnyddio'r adnoddau. Os ydynt yn bwriadu defnyddio'r adnoddau fel cronfeydd wrth gefn, dylent ddatgan hyn yn yr apêl.

Terminoleg cronfeydd wrth gefn

Dylai ymddiriedolwyr wybod yn iawn beth yw natur y cronfeydd y maent yn eu dal a sicrhau eu bod yn disgrifio'r cronfeydd yma mewn ffordd sy'n gyson â therminoleg **SORP**. Mewn nifer o achosion, nid yw elusennau'n defnyddio'r dosbarthiad cronfeydd y mae **SORP** yn ei ddisgrifio.

Mewn rhai achosion mae elusennau'n defnyddio 'cronfeydd wrth gefn' (reserves) yn hytrach na 'cronfa' (fund) fel ar yr argymhellir gan **SORP**. Mae mantolenni elusennau weithiau'n cyfeirio at 'gronfeydd wrth gefn cyfyngedig', 'cronfeydd gwaddoliad' a 'chronfeydd wrth gefn dynodedig' yn hytrach na'u disgrifio fel cronfeydd. Mae'r termau 'cronfeydd rhydd' neu 'gronfeydd hylifol' yn cael eu defnyddio wedyn i ddisgrifio 'cronfeydd wrth gefn' fel ag y'u diffiniwyd yn **SORP** a Rheoliadau 2000 (gweler atodiad B am fanylion).

Yng nghyd-destun cyfrifon **SORP**, gall defnyddio'r term 'cronfeydd wrth gefn' greu dryswch ar brydiau i fudd-ddeiliaid a'u gallu i asesu sefyllfa ariannol elusen yn gywir. Gall hyn ddigwydd hyd yn oed os yw ymddiriedolwyr a staff yn deall yn union beth y maent yn ei olygu. Dylid defnyddio terminoleg **SORP** yn gyson mewn cyfrifon statudol, hyd yn oed yng nghyd-destun elusennau corfforedig lle mae Deddf Cwmnïau 1985 yn caniatáu defnyddio'r term 'cronfeydd wrth gefn' i ddatgelu cyllid mantolen cwmni.

- Anogir ymddiriedolwyr i ddefnyddio terminoleg SORP yn gyson mewn cyfrifon statudol, hyd yn oed yng nghyd-destun elusennau corfforedig.

Polisi cronfeydd wrth gefn da

Bydd ymddiriedolwyr sydd wedi mynd trwy'r broses llunio polisi yn iawn yn gallu cyfiawnhau eu lefel cronfeydd wrth gefn. Dylent wedyn gymryd camau cadarnhaol i'w egluro i'r rhai sydd â diddordeb dilys. Nid oedd rhai o'r polisïau a archwiliwyd fel rhan o'r adolygiad yn ddigon cynhwysfawr i egluro pam yr oedd cronfeydd yn cael eu cadw. Er enghraifft, roedd nifer o bolisïau cronfeydd wrth gefn elusennau yn datgan bod ganddynt bwer i grynhoi yn unig heb roi manylion am eu cynlluniau neu eu lefelau cronfeydd wrth gefn.

Mae **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) yn gosod allan bedwar maes y dylai polisi ymdrin â nhw. Er gwaetha'r ffaith bod hwn yn cael ei ddarllen yn eang, rydym wedi canfod nad yw'r rhan fwyaf o elusennau yn ymdrin â'r pedwar pwynt yma yn eu datganiad ysgrifenedig. Yn arbennig, ychydig o elusennau oedd yn cynnwys datganiad am sut yr aethant ati i sefydlu lefel briodol o gronfeydd wrth gefn neu sut yr oeddent yn adolygu eu polisi cronfeydd wrth gefn.

Mae'r graff isod yn dangos pa feysydd y dylai'r polisi eu cynnwys, a chydymffurfiaeth â hynny:

Pa feysydd a nodir yn eich polisi ysgrifenedig?



Dim ond gwybodaeth gyfyngedig y mae ffigwr cronfeydd wrth gefn ar ei ben ei hun yn ei rhoi i fudd-ddeiliaid. Mae gosod ffigwr yn ei berspectif, er enghraifft cyfleu cronfeydd wrth gefn fel 'gwariant elusennol uniongyrchol y mis' yn rhoi teimlad o gymesuredd ac yn galluogi cymharu'r union swm â maint yr elusen.

- Dylai ymddiriedolwyr wneud yn siwr bod eu polisi cronfeydd wrth gefn elusen yn mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd yng nghyhoeddiad y Comisiwn Elusennau **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (CC19).

Datgelu polisi

Roedd hi'n galonogol gweld bod 84% o ymddiriedolwyr oedd yn meddu ar bolisi cronfeydd wrth gefn yn ei gyhoeddi yn eu hadroddiad blynyddol. Mae hyn yn unol ag adborth cadarnhaol yr ydym wedi ei dderbyn am ddealltwriaeth elusennau o'r angen i fod yn agored, yn atebol ac yn dryloyw ym mhob agwedd o'u gwaith.

Mae rhai yn gweld yr adroddiad blynyddol fel cyfle i gyfleu nodau a chyflawniadau'r flwyddyn, nid yn unig fel adroddiad technegol cul ar faterion ariannol. Fodd bynnag, mae yna rai sy'n dal i gredu mai datgelu'r lleiaf posibl yw'r ffordd ymlaen.

"Rydym yn cyhoeddi cyn lleied ag sydd raid ac yn dweud wrth ein cleientau i wneud yn un fath."

Ymddiriedolwyr elusen

Dim ond 12% o elusennau sydd â pholisi cronfeydd wrth gefn sydd ddim yn ei gyhoeddi yn unrhyw le. Fodd bynnag, nid oes reswm dros beidio â chael datgeliad 100% o bolisïau cronfeydd wrth gefn. Yn wir, ble mae ymddiriedolwyr elusen yn gorfod paratoi adroddiadau blynyddol, mae'n rhaid iddynt roi disgrifiad o'r polisïau a fabwysiadwyd ganddynt.[16] Mae hyn yn cynnwys datgelu polisi cronfeydd os oes un ganddynt.[17]

Diddordeb mewn polisïau cronfeydd wrth gefn

Mae yna nifer o fudd-ddeiliaid a allai fod â diddordeb mewn polisi cronfeydd elusen. Dywedodd elusennau wrthym mai ymddiriedolwyr oedd yn fwyaf tebygol o fynegi diddordeb (67%), gydag archwilwyr yn uchel hefyd (59%). Dywedodd bron pob un o'r elusennau a gyllidir gan grant bod cyrff rhoi grant wedi dangos diddordeb yn eu polisi cronfeydd. Soniwyd yn aml hefyd am y Comisiwn Elusennau a gweithwyr elusen fel rhai oedd yn dangos diddordeb yn y polisïau (gweler Atodiad A, Tabl 23).

Pwy oedd wedi mynegi diddordeb mewn polisïau cronfeydd wrth gefn



Nodyn: Mae'r cyfanswm yn fwy na 100% gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb

[16] Adran 45(1) o Ddeddf Elusennau 1993.
[17] SI 2000/2868 Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2000 Paragraff 7(4)(k)(i).

Egluro'r sefyllfa cronfeydd wrth gefn

"Credaf ei bod yn bwysig mynegi hyn [polisi cronfeydd wrth gefn] cyn llawned ag y bo modd gan bod cwestiynau am lefel ein cronfeydd yn dod mor aml."

Cyfarwyddwr cyllid elusen

Dylai ymddiriedolwyr sylweddoli bod gan bobl hawl i gwestiynu eu lefel cronfeydd ac y byddant yn gwneud hynny.

Mae arfer da felly yn mynnu bod ymddiriedolwyr yn:

- datgelu eu lefel cronfeydd wrth gefn yn llawn;
- egluro (yn llawn ac yn bendant) pam eu bod angen y lefel honno; a
- sicrhau nad oes unrhyw godi arian yn eu henw yn camddarlunio'r sefyllfa ariannol.

Rhaid i elusennau sydd â pholisi cronfeydd ei ddatgelu yn eu hadroddiad blynyddol.

Atodiad A - Technegau Ymchwil

Cymerwyd y data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn o seminarau gyda staff y Comisiwn Elusennau, cyfarfodydd gydag elusennau unigol neu grwpiau o elusennau a thrwy archwilio archif helaeth y Comisiwn Elusennau o achosion.

Yn ogystal, dadansoddwyd y data a ddarparwyd gan elusennau yn y Ffurflen Flynyddol 2001 a chynhaliodd cwmni ymchwil annibynnol arolwg ar ran y Comisiwn Elusennau.

Data'r Ffurflen Flynyddol

Cymerwyd y data o atebion elusennau i'r cwestiynau canlynol a ymddangosodd yn y Ffurflen Flynyddol 2001:

Cw10a	A yw'r elusen wedi gweithredu polisi yn y flwyddyn ariannol sy'n nodi lefel yr adnoddau sydd eu hangen i gwrdd yn effeithiol â'r anghenion a ddynodwyd gan ymddiriedolaethau'r elusen? (Ydy/Nac ydy)
Cw10b	Os 'ydy' yw'r ateb i 10a yna a yw adroddiad blynyddol yr elusen yn cynnwys disgrifiad o'r polisi? (Ydy/Nac ydy)
Cw10c	Nodwch gyfanswm y **cronfeydd** wrth gefn a ddelir gan yr elusen

Cymerir y dosbarthiadau 'math o elusen' o'r atebion a roddwyd gan elusennau ar eu ffurflen Gwirio Cofrestr 2001.

Technegau Arolwg

Yn Awst 2002, comisiynwyd Martin Hamblin (GfK) gan y Comisiwn Elusennau i gynnal arolwg trwy'r post o 3,600 o elusennau yng Nghymru a Lloegr gydag incwm o dros £10,000 er mwyn ymchwilio i fater cronfeydd wrth gefn elusennau. Cafwyd cyfradd ymateb o 56% i'r ymchwil sydd yn uchel iawn i arolwg o'r math hwn.

Rhannwyd y sampl yn haenau yn ôl incwm yn ôl a oedd gan yr elusen bolisi cronfeydd wrth gefn ai peidio.

Dosbarthiad elusennau yn ôl maint

Bach[18]	Incwm llai na £10,000
Canolig	Incwm £10,000 - £249,999
Mawr	Incwm £250,000 - £999,999
Mawr Iawn	Incwm £1,000,000+

[18] Yng ngham dau y gwaith ymchwil ystyriwyd profiadau'r elusennau hyn a chaiff hyn ei gyhoeddi ar wahân.

Tabl 1: Nifer yr elusennau a nododd fod ganddynt bolisi cronfeydd wrth gefn ai peidio yn eu Ffurflen Flynyddol 2001.

	Amcan o nifer y prif elusennau ar y gofrestr	Nifer yr elusennau sydd wedi llenwi eu Ffurflen Flynyddol[19]	Nifer yr elusennau gyda pholisi cronfeydd wrth gefn[20]	Swm yn y gronfa wrth gefn sydd gan elusennau gyda pholisi[21]	Elusennau heb bolisi cronfeydd wrth gefn	Swm yn y gronfa wrth gefn sydd gan elusennau heb bolisi	Nifer yr elusennau heb ateb	Swm yn y gronfa wrth gefn sydd gan elusennau na roesant ateb
£10,000 - £249,999	51717	44371	9026	£1.9 biliwn	33236	£1.9 biliwn	2109	£60.5 miliwn
£250,000 - £999,999	6638	6001	3044	£2.7 biliwn	2788	£1.1 biliwn	169	£46.5 miliwn
£1m a throsodd	3966	3661	2381	£16 biliwn	1203	£2.6 biliwn	77	£74 miliwn
Cyfanswm	**62321**	**54033**	**14451**	**£20.6 biliwn**	**37227**	**£5.6 biliwn**	**2355**	**£181 miliwn**

Tabl 2: Math a Elusen a Chymarebau Cronfeydd wrth gefn

	Elusennau gyda reserves ratios	%	Elusennau gyda chymarebau cronfeydd wrth gefn isaf	%	Elusennau yn y sample ar hap	%
Dibenion elusennol cyffredinol	7	24	2	4	5	14
Addysg/hyfforddiant	10	34	12	21	12	34
Meddygol/iechyd/salwch	3	10	8	14	0	0
Anabledd	1	3	6	11	6	17
Lleddfu tlodi	0	0	4	7	1	3
Cymorth tramor/cymorth mewn newyn	0	0	1	2	2	6
Llety/tai	1	3	5	9	1	3
Gweithgareddau crefyddol	1	3	4	7	5	14
Celfyddydau/diwylliant	1	3	4	7	0	0
Chwaraeon/adloniant	0	0	3	5	1	3
Anifeiliaid	0	0	0	0	0	0
Amgylchedd/cadwraeth/treftadaeth	5	17	4	7	1	3
Economeg/cymuned/datblygiad/cyflogaeth	0	0	3	5	1	3
	29	**100**	**56**	**100**	**35**	**100**

[19] Fel ar 10/01/03.
[20] Fel a nodwyd yn eu AR01, Q10A.
[21] Fel a nodwyd yn eu AR01, Q10C.

Tabl 3: A ydyw cael polisi wedi helpu'r elusen?

		Maint yr Incwm		
	Cyfanswm %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Ydy	46	41	44	54
Ni fu'n help nac yn rhwystr	45	50	44	39
Nac ydy	6	5	7	7
Sylfaen	**1042**	346	331	365

Tabl 4: Pan fo polisïau ar gronfeydd wrth gefn wedi cael eu creu

	Cyfanswm	
	%	**Nifer**
Cyn-1980	2	24
1980 - 1989	4	37
1990 - 1999	32	337
2000	21	215
2001	23	242
2002	5	49
Amherthnasol	13	138
Sylfaen	**1042**	

Tabl 5: Pwrpas cronfeydd wrth gefn elusennau*

	Cyfanswm	
	%	**Nifer**
I sicrhau parhad os digwydd i'r incwm amrywio'n sylweddol	71	740
I wario mewn argyfwng	41	425
I dalu am brosiectau penodol yn y dyfodol	40	411
I ddatrys problemau llif arian	37	383
I ddarparu ar gyfer rhwymedigaethau penodol e.e. ymrwymiadau pensiwn/contract	29	297
I gynhyrchu incwm	20	206
Arall	1	11
Sylfaen	**1042**	

* Roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Tabl 6: Prif luniwr y polisi cronfeydd wrth gefn

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Corff cyfan yr ymddiriedolwyr	39	411
Aelod staff	25	264
Aelod penodol o gorff yr ymddiriedolwyr	19	193
Archwilwyr	8	78
Ymgynghorydd proffesiynol	6	61
Aelodau'r grŵp/pwyllgor	3	35
Eraill	0-1	4
Sylfaen	**1042**	

Tabl 7: Pam cafodd pobl anhawster i greu'r Polisi Cronfeydd wrth Gefn*

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Gosod lefelau'r cronfeydd wrth gefn	49	43
Anhawster wrth ddelio gyda chymaint o ffactorau anhysbys	23	20
Incwm bach neu ddiffyg incwm sicr	18	16
Egluro'r angen am gronfeydd wrth gefn	13	11
Angen cyfarwyddiadau/cyngor mwy penodol gan y Comisiwn	12	10
Nid oes gan yr elusen gronfeydd wrth gefn	3	3
Arall	19	16
Sylfaen	**87**	

* Mae'r cyfanswm yn fwy na 87 oblegid gallai'r ymatebwyr fod wedi nodi mwy nag un rheswm

Tabl 8: Ffynonellau cyngor/gwybodaeth a ddefnyddir gan elusennau

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Cyngor gan archwilwyr	56	585
CC19 - Arweiniad y Comisiwn Elusennau	46	483
SORP 2000	31	323
Ymgynghorydd proffesiynol	21	223
Enghreifftiau SORP - CC66	13	140
Arweiniad Gweithredol o Wefan y Comisiwn Elusennau	11	113
Cylchgronau'r Sector	11	110
Cyfaill neu gydweithiwr	7	76
Oddi wrth yr ymddiriedolwyr	4	45
Oddi wrth elusennau/sefydliadau eraill	4	45
Eraill	3	36
Dim un o'r awgrymiadau a roddwyd	8	88
Sylfaen	**1042**	

* Roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Tabl 9: A yw'r swm cyfredol a ddelir gennych mewn cronfeydd wrth gefn ...?

		Maint yr income		
	Cyfanswm%	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Yn llai na'r lefel a gynlluniwyd	**29**	17	31	40
Yn unol â'r lefel a gynlluniwyd	**58**	67	54	52
Mwy na'r lefel a gynlluniwyd	**10**	11	12	7
Sylfaen	**1042**	346	331	365

Tabl 10: Pam mae gan rai elusennau fwy neu lai na'r lefel a gynlluniwyd o gronfeydd wrth gefn

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Gostyngiad/amrywiadau mewn incwm	14	58
Cyfnod o wariant cyfalaf uchel	9	35
Yn dymuno cynnal/ehangu lefel gwasanaethau/gweithgareddau	8	32
Mae symudiadau'r farchnad stoc wedi lleihau'r incwm o fuddsoddiadau	8	32
Incwm/rhoddion anniswgyl	7	29
Cost cynnal a chadw/trwsio atgyweirio parhaus	6	25
Prosiectau adeiladu/prynu/rhentu prosiect newydd/adleoli	6	23
Materion staffio	5	20
Dim ond wedi bod yn rhedeg am gyfnod byr/cwpl o flynyddoedd/polisi cronfeydd wrth gefn yn ei le am gyfnod byr	5	18
Anhawster i ddenu arian/cymorth/nawdd	5	18
Gwariant yn is na'r disgwyl	2	6
Sylfaen	**403**	

Tabl 11: Y camau y mae elusennau'n eu cymryd i gywiro'r sefyllfa

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Adeiladu/ailadeiladu cronfeydd wrth gefn yn y dyfodol	28	113
Cynllunio strategol i gyflawni amcanion ariannol	16	64
Monitro/lleihau gwariant	12	50
Parhau/cynyddu'r gwaith codi arian	12	47
Prosiectau cyfalaf a gynlluniwyd	11	45
Adolygu polisi cronfeydd wrth gefn a'r lefel ofynnol wrth gynllunio cyllideb	8	31
Ceisio cael grantiau loteri/grantiau ymchwil sawl blwyddyn a grantiau eraill	3	12
Rhoi gwargedau o'r neilltu, fel a phan fyddant ar gael	2	9
Gwneud newidiadau/adolygu polisi buddsoddi	2	9
Gorddrafft banc dros dro.benthyciadau/parhau tueddiadau i leihau benthyca net	2	8
Codi/cynyddu ffioedd	2	8
Gwasgaru cronfeydd dros ben i achosion eraill	2	8
Gwaith newydd yn dod i mewn/gwneud gwaith ymgynghori/gwaith contract/gweithgareddau masnachol	2	7
Sylfaen	**403**	

Tabl 12: Oes gan eich elusen unrhyw un o'r 'cynlluniau wrth gefn' canlynol?

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Gorddraftt neu glustog ariannol arall	32	309
Cymorth gan aelodau neu noddwyr	23	226
Yswiriant	23	223
Defnydd o gyfleusterau elusen arall	9	89
Gwario cronfeydd wrth gefn	5	45
Dim ond yn gwario incwm fel y mae ar gael/rheoli gwariant	4	43
Arian gan awdurdodau lleol	2	15
Cod arian	2	20
Ail-drafod contractau/cyflogau	1	8
Cau	1	6
Dim cynlluniau wrth gefn	2	15
Eraill	3	27
Amherthnasol/ddim yn gwybod	24	230
Sylfaen	**969**	

* Roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Tabl 13: Pryd y bydd elusennau'n adolygu eu polisi cronfeydd wrth gefn*

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Wrth gynhyrchu'r adroddiad blynyddol/yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol	64	671
Ar y cyd â chynllunio strategol	34	357
Yn afreolaidd - os a phan fo agen	19	198
Eraill	7	68
Ddim yn ei adolygu	4	36
Wrth bennu cyllideb	3	28
Mewn cyfarfodydd ymddiriedolwyr	2	24
Ddim yn gwybod/amherthnasol	2	26
Sylfaen	**1042**	

* Roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Tabl 14: Proffiliau ymatebwyr

		Gyda pholisi cronfeydd wrth gefn %	Heb bolisi cronfeydd wrth gefn %
Incwm	Canolig (£10,000 - £249,000)	33	35
	Mawr (£250,000 - £999,999)	32	33
	Mawr iawn (£1 miliwn +)	35	32
Oed yr elusen	0 - 5 oed	7	10
	6 - 20 oed	34	40
	21 - 100 oed	45	42
	101 oed +	13	7
Prif weithgarwch	Darparu cymorth ariannol	18	17
	Darparu gwasanaethau/cymorth	64	69
	Gweithredu fel Corff ymbarél/ corff adnoddau	6	4
	Noddi neu gynnal ymchwil	3	1
	Arall/Amherthnasol	9	9
Ffynhonnell incwm	Contract	19	18
	Rhoddwyr	15	14
	Grantiau	21	25
	Buddsoddiadau	13	8
	Aelodau	9	9
	Is-gwmni masnachu	2	2
	Arall/Amherthnasol	21	24
Oes darpariaeth yn y Ddogfen Lywodraethu sy'n cyfeirio at gronfeydd wrth gefn?	Oes	22	11
	Nac oes	67	70
	Ddim yn gwybod/Amherthnasol	9	19
Sylfaen		**1042**	**969**

Tabl 15: Cronfeydd wrth gefn a ddelir gan elusennau heb bolisi

Oes gan yr elusen unrhyw arian y gellid ei ddisgrifio fel cronfeydd wrth gefn?

		Maint Incwm		
	Cyfanswm %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Oes	**64**	59	68	65
Nac oes	**34**	39	30	34
Ddim yn gwybod	**1**	1	2	1
Amherthnasol	**1**	2	1	1
Sylfaen	**969**	334	324	308

Tabl 16: Symiau sydd gan elusennau heb bolisi mewn cronfeydd wrth gefn

Faint o arian sydd gennych y gellid ei ddisgrifio fel 'cronfeydd wrth gefn'?

		Maint Incwm		
	Cyfanswm %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
£1 - £10,000	**21**	48	11	6
£10,001 - £50,000	**26**	32	33	13
£50,001 - £250,000	**29**	14	38	35
£250,001 - £1 miliwn	**14**	5	13	25
Mwy na £1 miliwn	**9**	1	5	21
Sylfaen	**969**	334	324	308

Tabl 17: Pam nad oedd elusennau wedi datblygu polisi cronfeydd wrth gefn

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Dim arian i'w gadw mewn cronfeydd wrth gefn	33	315
Heb ystyried cael un	29	280
Dim rhwymedigaeth i gael polisi	20	191
Polisi wrth gefn wedi ei gytuno/ar y gweill	18	173
Ddim yn gwybod sut i lunio'r polisi	6	59
Dim amser i ystyried mater cronfeydd wrth gefn	6	53
Polisi wrth gefn anffurfiol	5	47
Yr holl incwm a wariwyd/incwm a bwyswyd yn erbyn gwariant	4	36
Dim polisi wrth gefn	4	34
Ddim yn dymuno datgelu'r wybodaeth hon i eraill	2	22
Polisi wrth gefn i'w osod ar ddiwedd y flwyddyn	2	17
Rhy anodd	1	11
Eraill	2	14
Sylfaen	**969**	

* Roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Tabl 18: Pa mor hawdd oedd hi i greu'r polisi

Pa mor hawdd neu anodd oedd i'ch elusen greu eich polisi cronfeydd wrth gefn?

Pa mor hawdd neu anodd oedd i greu'r polisi cronfeydd wrth gefn		Maint Incwm		
	Cyfanswm %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Pawb a'i caffod yn hawdd	**44**	52	41	40
Pawb a'i cafodd yn anodd	**8**	5	11	9
Hawdd iawn	**13**	20	13	7
Eithaf hawdd	**31**	32	29	33
Ddim yn anodd nac yn hawdd	**45**	40	44	50
Eithaf anodd	**8**	5	11	8
Anodd iawn	**1**	-	-	1
Sylfaen	**1042**	346	331	365

Tabl 19: Cyngor a geisiwyd gan elusennau heb bolisi

Ydych chi wedi ymgynghori ag unrhyw un o'r canlynol i ofyn am gyngor ynghylch sut i greu Polisi Cronfeydd wrth gefn?

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Archwilydd	29	282
CC19 - Arweiniad y Comisiwn Elusennau	22	216
SORP 2000	17	165
Ymgynghorydd proffesiynol	13	130
Enghreifftiau SORP - CC66	12	114
Arweiniad Gweithredol o Wefan y Comisiwn Elusennau	9	91
Cyfaill neu gydweithiwr	4	39
Cylchgronau'r Sector	2	21
Ymddiriedolwyr	-	4
Eraill	1	12
Na, dim un o'r uchod	48	468
Dim byd/Amherthnasol	7	66
Sylfaen	**969**	

Tabl 20: Rhesymau dros beidio â datblygu polisi ar ôl ceisio cyngor

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Polisi ar y gweill	24	121
Polisi yn ei le yn awr	21	105
Polisi yn flaenoriaeth isel/nid yw'n cael ei weld fel anghenraid	6	33
Dim digon o arian	6	31
Cronfeydd yn cael eu defnyddio'n llawn/yn ddigonol at ein hanghenion	4	21
Nid oes gan yr elusen gronfeydd wrth gefn	4	21
Diffyg amser	3	14
Dim gofyniad tan yn awr	2	10
Arian o rywle arall	1	7
Yn wynebu newidiadau mawr	-	2
Eraill	2	10
Amherthnasol	33	167
Sylfaen	**501 (pawb a geisiodd gyngor)**	

Tabl 21: Meysydd a nodir mewn polisïau ysgrifenedig

Pa feysydd a nodir yn eich polisi ysgrifenedig?*

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Rhesymau pam mae angen/nad oes angen cronfeydd wrth gefn ar eich elusen	80	608
Y lefel neu'r ystod sydd angen ar yr elusen ym marn yr ymddiriedolwyr	73	553
Trefniadau i fonitro ac adolygu'r polisi	40	304
Camau y mae'r elusen yn mynd i'w cymryd i sefydlu cronfeydd wrth gefn ar lefel a gytunwyd	30	223
Dim un o'r uchod	3	20
Sylfaen	**761**	

* Roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Tabl 22: Ble mae elusennau'n cyhoeddi eu polisïau*

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr	84	640
Cyfrifon/cyfriflenni ariannol	2	18
Llenyddiaeth codi arian	2	14
Gwefan yr elusen	1	11
Cofnodion yr ymddiriedolwyr	1	9
Cylchlythyr	1	8
Cofnodion/adroddiadau pwyllgorau	1	8
Cynllun busnes/dogfen strategaeth	1	7
Cyfarfodydd aelodau	1	5
Adroddiad blynyddol	-	3
Dogfen bolisi a gwethdrefnau	-	3
Eraill	4	27
Nid ydym yn cyhoeddi'r polisi	12	94
Sylfaen	**761**	

* Roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Table 23: Partïon sydd wedi mynegi diddordeb ym mholisïau cronfeydd wrth gefn elusennau*

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Ymddiriedolwyr	67	695
Archwilwyr	59	619
Cyrff rhoi grantiau	21	215
Comisiwn Elusennau	19	193
Gweithwyr	11	116
Ymgynghorwyr ariannol	11	119
Rhoddwyr	9	95
Codwyr arian	5	53
Y cyhoedd	2	16
Aelodau	1	14
Cyfryngau	1	5
Eraill	2	18
Neb	16	167
Amherthnasol	4	37
Sylfaen	**1042**	

Atodiad B - Rhestr Termau

Cronfeydd wrth gefn. Mae amrywiaeth o ystyron technegol a chyffredin i'r term 'cronfeydd wrth gefn', gan ddibynnu ar y cyd-destun y defnyddir ef ynddo. Fel yn SORP 2000, yma rydym yn defnyddio'r term 'cronfeydd wrth gefn' (oni nodir fel arall) i ddisgrifio'r rhan honno o gronfeydd incwm elusen sydd ar gael yn rhydd ar gyfer ei phwrpasau cyffredinol.

Cronfeydd wrth gefn, felly, yw'r adnoddau sydd gan yr elusen neu y gall eu rhoi ar gael i'w gwario ar gyfer unrhyw un neu'r cwbl o bwrpasau'r elusen unwaith y bydd wedi cwrdd â'i hymrwymiadau ac wedi neilltuo arian ar gyfer unrhyw wariant arall a gynlluniwyd.

Yn fwy penodol mae SORP 2000 yn diffinio cronfeydd wrth gefn fel incwm sy'n dod ar gael i'r elusen ac sydd i'w wario yn ôl doethineb yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo unrhyw un o amcanion yr elusen (cyfeirir ato weithiau fel incwm 'pwrpas cyffredinol'), ond nad yw eto wedi ei wario, ei neilltuo neu ei ddynodi (h.y. mae'n rhydd). Mae'r diffiniad hwn o gronfeydd wrth gefn felly yn eithrio:

- gwaddoliad parhaol;
- gwaddoliad gwariadwy;
- cronfeydd cyfyngedig;
- cronfeydd dynodedig; a
- chronfeydd incwm na ellid cael gafael arnynt ond trwy gael gwared ar asedau sefydlog a ddelir at ddefnydd yr elusen.

Cronfeydd incwm yw'r holl adnoddau sy'n dod i mewn sy'n dod ar gael i elusen ac mae'r ymddiriedolwyr dan ofyniad cyfreithiol i'w defnyddio i hyrwyddo ei amcanion elusennol o fewn amser rhesymol ar ôl eu derbyn (defnyddio yw ymarfer pwer cronni yn briodol).

Gellir gwario **cronfeydd anghyfyngedig (gan gynnwys cronfeydd dynodedig)** yn ôl doethineb yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion yr elusen. Os yw rhan o gronfa anghyfyngedig wedi ei dynodi ar gyfer prosiect neilltuol gellir ei dynodi fel cronfa ar wahân, ond dim ond at ddiben gweinyddol yn unig y gwneir y dynodiad, ac nid yw'n cyfyngu'n gyfreithiol ar ddoethineb yr ymddiriedolwyr i ddefnyddio'r gronfa.

Mae **cronfeydd cyfyngedig** yn ddarostyngedig i ymddiriedolaethau penodol, y gellir eu datgan gan y rhoddwr(wyr) neu gyda'u hawdurdod e.e. (mewn apêl gyhoeddus) neu eu creu trwy broses gyfreithiol, ond yn dal o fewn amcanion ehangach yr elusen.Gall cronfeydd cyfyngedig fod yn gronfeydd incwm cyfyngedig, y gellir eu gwario yn ôl doethineb yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo rhyw agwedd(au) arbennig ar amcanion yr elusen. Neu gallant fod yn gronfeydd cyfalaf (h.y. gwaddoliad), lle mae'n ofynnol buddsoddi'r asedau, neu eu cadw i'w defnyddio go iawn, yn hytrach na'u gwario.

Cronfeydd gwaddoliad. Adwaenir cronfa waddoliad lle nad oes pwer i droi'r cyfalaf yn incwm yn **gronfa waddoliad barhaol**, ac fel rheol rhaid dal cronfa felly am gyfnod amhenodol. Nid yw'r cysyniad hwn o 'barhad' yn golygu o reidrwydd nad ellir cyfnewid yr asedau yn y gronfa waddoliad (er mewn rhai achosion bydd y cronfeydd yn gofyn am gadw ased penodol ar gyfer ei ddefnyddio go iawn e.e. adeilad hanesyddol) ac nid yw'n golygu chwaith nad ydynt yn gallu colli eu gwerth neu ddioddeg colled. Yr hyn mae'n ei olygu yw na ellir defnyddio'r gronfa waddoliad barhaol fel pe bai'n incwm (h.y. i wneud taliadau neu grantiau i eraill).

Gall fod gan Ymddiriedolwyr y pwer i drosi cronfeydd gwaddoliad yn incwm gwariadwy; adwaenir cronfeydd felly yn **waddoliadau gwariadwy**. (Gellir gwahaniaethu rhwng gwaddoliad gwariadwy ac 'incwm' oherwydd nad oes dyletswydd gadarnhaol ar ran yr ymddiriedolwyr i'w ddefnyddio at ddibenion yr elusen, oni bai a hyd nes yr gweithredir y pwer hwn i'w drosi'n 'incwm' mewn gwirionedd.) Os bydd pwer felly yn cael ei ymarfer mae'r cronfeydd perthnasol yn troi'n incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig, yn dibynnu a yw'r ymddiriedolaeth yn caniatáu gwariant at unrhyw un o ddibenion yr elusen, neu ddim ond at ddibenion penodol.

Cyfanswm elw yw'r cyfan o'r elw ar y buddsoddiad a dderbynnir gan elusen, ni waeth pryd y cafwyd a sut y cafwyd.

Cyfanswm yr elw heb ei ddefnyddio yw cyfanswm yr elw llai unrhyw elw sydd eisoes wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion yr elusen (incwm).

Methdaliad. Mae cwmnïau elusennol yn 'bersonau cyfreithiol', ac yn rhinwedd hynny maent yn gallu dwyn rhwymedigaethau, ac yn gallu mynd yn '**fethdalwyr**'. Gall elusen felly gael ei barnu'n fethdalwr naill ai:

- pan nad yw'n gallu talu ei dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus; neu
- pan fydd gwerth ei hasedau yn llai na swm ei rhwymedigaethau gan gymryd i ystyriaeth ei rhwymedigaethau posibl ac arfaethedig.

Yn achos **cwmnïau elusennol** y mae sylfaen gyfreithiol i'r ddau brawf hwn, gan eu bod yn agweddau ar y diffiniad o anallu i dalu dyledion yn adran 123 o'r Ddeddf Methdaliad.

Nid yw elusennau anghorfforedig yn 'bersonau cyfreithiol' ac yn dechnegol ni allant ddwyn rhwymedigaethau, yn lle hynny mae'r rhain yn cael eu dwyn gan eu hymddiriedolwyr, sy'n gweithredu ar eu rhan. Nid yw elusennau anghorfforedig felly yn gallu mynd yn fethdalwyr yn dechnegol. Er hynny gall elusen gyrraedd cyflwr ariannol lle mae gwerth yr asedau mewn ymddiriedolaeth sydd ar gael i'r ymddiriedolwyr i setlo eu rhwymedigaethau yn annigonol. Yng nghyd-destun elusennau anghorfforedig defnyddir y gair 'methdaliad' i ddisgrifio'r sefyllfa hon.

Am fwy o wybodaeth am fethdaliad cyfeiriwch at ein taflen; **Rheoli Anawsterau Ariannol a Methdaliad mewn Elusennau** (**CC12**).

Defnyddir y gair '**rhaid**' i gyfeirio at weithredoedd y mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr eu cymryd, mae'r mwyafrif o'r rhain yn ofynion cyfreithiol.

Defnyddir y gair '**dylai**' i awgrymu gweithredoedd yr ydym yn ystyried eu bod yn arfer da ac yr ydym yn disgwyl i ymddiriedolwyr eu dilyn.

Atodiad C - Adnoddau ar gyfer Ymddiriedolwyr

Y mae llawer o adnoddau sydd ar gael at ddefnydd ymddiriedolwyr i'w helpu i reoli Cronfeydd wrth Gefn Elusennau. Er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r holl ffynonellau gwybodaeth y mae;n cynnig man cychwyn defnyddiol. Gall y cyhoeddiadau a restrir yn Atodiad D fod yn ddefnyddiol hefyd.

Sefydliadau

- *Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr*

Rhennir y cyfrifoldeb am elusennau rhwng ein pedair swyddfa. Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth y Comisiwn yn:

Llundain
Harmsworth House
13-15 Bouverie Street
Llundain
EC4Y 8DP

Lerpwl
3ydd a 4ydd Llawr
12 Princes Dock
Princes Parade
Lerpwl
L3 1DE

Casnewydd
8fed Llawr
Tŷ Clarence
Clarence Place
Casnewydd
De Cymru NP19 7AA

Taunton
Woodfield House
Tangier
Taunton
Gwlad yr Haf
TA1 4BL

Ffôn: 0845 300 0218
Minicom: 0845 300 0219
Gwasanaethau Ar-lein: 0845 300 0197
E-bost: feedback@charitycommission.gov.uk
Gwefan: www.charitycommission.gov.uk

- *Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO)*

Mae ACEVO yn darparu adnoddau arfer da a gwybodaeth am faterion yn y sector.

83 Victoria Street
Llundain
SW1H OHW

Ffôn: 0845 345 8481
www.acevo.org.uk

- *Cymdeithas Sefydliadau Elusennol (ACF)*

Mae ACF yn hyrwyddo ac yn cynorthwyo gwaith ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol sy'n rhoi grantiau.

Central House
14 Upper Woburn Place
Llundain
WC1H 0AE

Ffôn: 020 7255 4499
www.acf.org.uk

- *Sefydliad Cymorth Elusennau (CAF)*

Mae CAF yn helpu sefydliadau di-elw yn y DU a thramor i gynyddu, rheoli a gweinyddu eu hadnoddau.

Kings Hill
West Malling
Caint
ME19 TA

Ffôn: 01732 520000
Gwefan: www.cafonline.org

- *Grŵp Cyfarwyddwyr Arian Elusennau (CFDG)*

Mae CFDG yn darparu gwybodaeth ar gyfer ei haelodau ac eraill ar ystod o faterion ac yn arbenigo mewn helpu elusennau i reoli eu gwaith cyfrifo, treth, archwilio a swyddogaethau eraill sy'n ymwneud ag arian. Mae manteision aelodaeth yn cynnwys cyfarfodydd aelodau rheolaidd, cylchlythyrau misol a mynediad at wybodaeth a gwasanaethau.

3rd Floor
Downstream Building
1 London Bridge
Llundain
SE1 9BG

Ffôn: 0845 345 3192
E-bost: info@cfdg.org.uk
Gwefan: www.cfdg.org.uk

- *Directory of Social Change (DSC)*

Mae'r Cyfeirlyfr yn hyrwyddo newid cymdeithasol cadarnhaol ac yn darparu ystod eang o adnoddau ar gyfer ymddiriedolwyr.

Llundain
24 Stephenson Way
Llundain
NW1 2DP

Lerpwl
Federation House
Hope Street
Lerpwl
L1 9BW

Ffôn (llyfrau): 0845 077 77 77
Ffôn (hyfforddiant a digwyddiadau): Llundain 020 7391 4800 a Lerpwl 0151 708 0117
Gwefan: www.dsc.org.uk

- *Cyllid y Wlad (IR)*

Am wybodaeth am faterion treth sy'n ymwneud ag elusennau.

Cyllid y Wlad Elusennau
Room 140
St John's House
Merton Road
Bootle
Merseyside
L69 9BB

Ffôn: 0845 010 9000 (ymholiadau cyffredinol)
Gwefan: www.hmrc.gov.uk

- *Sefydliad Codi Arian (Institute of Fundraising)*

Nod y Sefydliad Codi Arian yw hyrwyddo'r safonau uchaf mewn arfer codi arian.

Park Place
12 Lawn Lane
Llundain
SW8 1UD

Ffôn: 020 7840 1000
E-bost: enquiries@institute-of-fundraising.org.uk
Gwefan: www.institute-of-fundraising.org.uk

- *Cyfrifo Rheolaeth ar gyfer Sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth (MANGO)*

Mae MANGO yn darparu cymorth cyfrifo arbenigol i sefydliadau dyngarol sy'n gweithio mewn gwledydd sy'n datblygu.

97a St Aldates
Oxford
OX1 1BT

Ffôn: 01865 423818
E-bost: enquiries@mango.org.uk
Gwefan: www.mango.org.uk

- *Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol (NACVS)*

Mae rhwydwaith NACVS yn darparu ystod eang o wybodaeth a chymorth i elusennau.

Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol
3rd Floor Arundel Court
177 Arundel Street
Sheffield S1 2NU

Ffôn: 0114 278 6636
E-bost: nacvs@nacvs.org.uk
Gwefan: www.nacvs.org.uk

- *Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol (NCVO)*

Mae gwybodaeth ar gael ar faterion codi arian a rheoli ac ystod o wasanaethau cymorth cyffredinol.

Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol
Regent's Wharf
8 All Saints Street
Llundain N1 9RL

Ffôn: 020 7713 6161
E-bost: ncvo@ncvo-vol.org.uk
Gwefan: www.ncvo-vol.org.uk, www.askncvo.org.uk

- *VolResource*

Mae'r adnodd hwn sydd ar gael ar y rhyngrwyd yn unig yn cynnig cysylltiadau cyflym i sefydliadau defnyddiol sy'n ymwneud â rhedeg elusennau'n effeithiol.

E-bost: info@volresource.org.uk
Gwefan: www.volresource.org.uk

- *Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)*

Mae WCVA yn helpu elusennau a'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Tŷ Baltig
Sgwân Mount Stuart
Bae Caerdydd
Caerdydd CF10 5FH

Ffôn: 029 20431700
E-bost: enquiries@wcva.org.uk
Gwefan: www.wcva.org.uk

Cylchgronau, cyfnodolion a phapurau newydd

- *Charity Finance*

3 Rectory Grove
Llundain
SW4 0DX

Tanysgrifiadau - Ffôn: 020 7819 1204
E-bost: sshabiolegbe@charityfinance.co.uk
Gwefan: www.charityfinance.co.uk

- *Charities Management*

Mitre House Publishing
The Clifton Centre
110 Clifton Street
Llundain
EC2A 4HD

Tanysgrifiadau - Ffôn: 020 7729 6644

- *Charity Times*

Tanysgrifiadau - Ffôn: 020 7426 0636
Gwefan: www.charitytimes.com

- *The Guardian/Society*

Mae'r adran Society yn rhifyn dydd Mercher o'r Guardian yn arbennig o ddefnyddiol.

Gwefan: www.SocietyGuardian.co.uk

- *Third Sector*

Tanysgrifiadau dros y ffôn: 020 8606 7500
E-bost: subscriptions@haynet.com
Gwefan: www.thirdsector.co.uk

Atodiad D - Llyfryddiaeth

Bashir H., (1999) *Good Financial Management Guide*. NCVO. Llundain.

BBC News (1999) *UK taking stock of charitable assets*. BBC. Ionawr 4ydd.

Bussy P., (2002) *Counting on the future*. Charity Finance. Gorffennaf tt 30-32.

Cater N., (2002) *Bad for Business*. Guardian Society. Ebrill 10fed.

Comisiwn Elusennau (2002) *Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau (CC19)*.

Comisiwn Elusennau (2000) *Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau. Datganiad Arfer Da a Gymeradwyir*. Llyfrfa ei Mawrhydi.

Comisiwn Elusennau (2003) *Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau, Datganiad Arfer Da a Gymeradwyir (Elusennau SORP) Bwletin 1 Update*. Llyfrfa ei Mawrhydi.

Comisiwn Elusennau (2004) *Buddsoddi Cronfeydd Elusennol (CC14)*.

Comisiwn Elusennau (2004) *Rheoli Anawsterau Ariannol a Methdaliad mewn Elusennau (CC12)*. Llyfrfa ei Mawrhydi.

Comisiwn Elusennau (2001) *Annibyniaeth Elusennau ar y Wladwriaeth (RR7)*. Gwefan yn unig.

Comisiwn Elusennau (2002) *Elusennau a Rheoli Risg*.

Comisiwn Elusennau (2004) *Nodweddion Elusen Effeithiol (CC60)*.

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (2000) *Charitable Funds associated with NHS bodies (Argraffwyd 12 Mehefin 2000 dan orchymyn Tŷ'r Cyffredin)*. Llyfrfa ei Mawrhydi. Llundain.

Gillingham S., Tame J., (1997) *Not just for a Rainy Day?* NCVO. Llundain.

Gutch R., (2002) *Beginning of the journey*. Guardian/Society. Mehefin 26.

Harker L., (2002) *Invest in the Rest*. Community Care. Medi 5.

Hayday M., (2000) *Kick-starting a capital market for charities*. NGO Finance magazine Cyfrol 10 rhifyn 6. Gorffennaf/Awst.

Hill N., (2001) *Stormy Waters*. Guardian/Society. Ionawr 17.

Hill N., (2002) *Risk Management*. Guardian/Society. Ebrill 10.

Hind A., (1995) *The Governance and management of charities*. The Voluntary Sector Press. High Barnet.

Howe M., (2002) *Voluntary sector facing funding crisis warns investment house*. Charity Week. Awst 13.

Hudson M., (1999) *Managing without profit*. 2il Argraffiad, Penguin. Llundain.

Jacoby C., (2002) *What Course in The Storm?* Third Sector. Awst 21.

Little M., (2002) *Charities told to improve reports*. Third Sector. Medi 4.

McCurry P., (2001) *Taking the risk out*. Guardian/Society. Tachwedd 21.

Maggs L., (2002) *Name and Shame threat looms over account reporting*. Third Sector. Ebrill 3.

Morgan N., (2002) *Charity Reserves*. Governance, Cyfrol 1, (2). Gaeaf.

Peacock G., (2002) *Opinion: Debunk myths that persist in public thinking*. Third Sector. Medi 25.

Pianca A., Dawes G., (2002) *Charity Accounts, A practical Guide to the Charities SORP,* ail argraffiad. Jordans Publishing. Bryste.

Plummer J., (2002) *How Can Charities best manage reserve funds?* Third Sector. Hydred 16.

Poffley A., (2001) *Moving beyond budgeting*. Charity Finance. Gorffennaf.

Poffley A., (2002) *Financial Stewardship of Charities*. Directory of Social Change. Llundain.

Poffley A., (2002) *Bear in mind*. Charity Finance. Medi.

Pybus J., (2002) *Cash balancing act*. Guardian/Society. Ebrill 10.

Pybus J., (2002) *Your best communication tool*. Third Sector. Mai 8.

Ramrayka L., (2002) *Directing finances in the wake of disaster*. Guardian/Society. Ebrill 10.

Reece D., (2002) *Why stock markets aren't working for charity*. Sunday Telegraph. Awst 4.

Taylor D., (2001) *How to compile the perfect charity report*. Araith a gyhoeddwyd yn Guardian/Society. Chwefror 12.

Travis A., (2002) *Scrapped, the secret funds that few knew existed*. Guardian. Mehefin 3.

Vincent R., Francis A., (2001) *Charity Accounting and Taxation*. Butterworths Tolley. Llundain.

Picarda H., (1995) *The law and practice relating to charities*. 2il Argraffiad, Butterworths. Llundain.

Warburton J., (1995) *Tudor on Charities*. 8fed Argraffiad, Sweet & Maxwell. Llundain.

WCVA, (2002) *Faith and hope don't run charities (trustees do): a practical guide for voluntary members of management committees*. Caerdydd.

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r holl elusennau a roddodd o'u hamser i gyfrannu at gynhyrchu'r adroddiad hwn, gyda diolch yn arbennig i'r Grwp Cyfarwyddwyr Cyllid Elusen a'i aelodau am eu cyfraniad.

Hoffem ddiolch hefyd i'r Athro Paul Palmer am ei gymorth a'i dreiddgarwch gwerthfawr.